**Rhif:** WG31283

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o ymatebion

# Cyllid cymorth myfyrwyr i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 11 Gorffenaf 2017

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in Welsh.

OGL © Crown Copyright

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Crynodeb o ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar weithredu'r newidiadau arfaethedig i gyllid cymorth myfyrwyr yng Nghymru. |
| **Camau gofynnol** | Dim. At ddibenion gwybodaeth yn unig. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylai unrhyw gwestiynau am y ddogfen hon gael eu hanfon i'r cyfeiriad canlynol:<br><br>Is-adran Addysg Uwch<br>Y Gyfarwyddiaeth Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>e-bost: hepolicy@wales.gsi.gov.uk |
| **Dogfennau cysylltiedig** | *Cyllid cymorth myfyrwyr i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru* (2016): dogfen ymgynghori<br>https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/cymorth-i-fyfyrwyr-syn-byw-yng-nghymru |

ISBN 978-1-4734-9450-3

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | **2** |
| **Pecyn cymorth i fyfyrwyr ar gyfer myfyrwyr israddedig** | **3** |
| **Cyflwyno system ran-amser wedi'i rheoleiddio'n llawn** | **16** |
| **Darpariaeth gradd Meistr ôl-raddedig a addysgir** | **20** |
| **Myfyrwyr â phrofiad o fod mewn lleoliad gofal** | **29** |
| **Astudiaeth drawsffiniol** | **34** |
| **Cymwysterau cyfwerth neu is** | **37** |
| **Sylwadau eraill** | **40** |
| **Atodiad A – rhestr o ymatebwyr** | **45** |

## Crynodeb


1. Bu Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar weithredu'r newidiadau arfaethedig i gyllid cymorth myfyrwyr ac addysg uwch (AU) gan Weinidogion Cymru[1]. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw ac yn amlinellu ymateb Llywodraeth Cymru. Mae'r blynyddoedd y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yn flynyddoedd academaidd, oni nodir yn wahanol.

2. Cafodd yr ymgynghoriad ei lywio gan argymhellion yr Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru, a gadeiriwyd gan yr Athro Syr Ian Diamond, a fu ar waith o fis Ebrill 2014 tan fis Medi 2016. Comisiynodd Llywodraeth Cymru yr Adolygiad mewn cydnabyddiaeth o'r angen i asesu a oedd y system cyllido AU a chymorth myfyrwyr bresennol yn gynaliadwy yn y tymor hir. Bu'r Panel Adolygu yn ystyried yn fanwl yr achos dros newid y cymorth a gynigir i fyfyrwyr. Mae'r adroddiadau o Adolygiad Diamond ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru trwy'r ddolen ganlynol:
http://llyw.cymru/topics/educationandskills/highereducation/review-of-he-funding-and-student-finance-arrangements/?lang=cy

3. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r egwyddorion yn yr adroddiad ac wedi derbyn y rhan fwyaf o argymhellion Adolygiad Diamond. Felly, bu'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar gael barn pobl am ddatblygu a gweithredu'r polisi a fydd yn cael ei gyflwyno o 2018/19 ymlaen.

4. Derbyniwyd 44 ymateb i'r ymgynghoriad. Mae Ffigur 1 yn dangos yr ymatebion a dderbyniwyd fesul grŵp. Cafwyd y nifer fwyaf o ymatebion gan unigolion, gyda sefydliadau neu adrannau AB yn yr ail safle.

**Ffigur 1: Nifer yr ymatebion, fesul grŵp**




[1] *Cyllid cymorth myfyrwyr i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru* (2016): dogfen ymgynghori https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/cymorth-i-fyfyrwyr-syn-byw-yng-nghymru

## Pecyn cymorth i fyfyrwyr ar gyfer myfyrwyr israddedig

### Ein cwestiynau

5. Gofynnwyd y cwestiynau canlynol am weithredu ein newidiadau arfaethedig i'r pecyn cymorth ar gyfer myfyrwyr llawn amser a rhan-amser.

| | |
|---|---|
| Cwestiwn 1. | Oes yna broblemau mawr o ran gweithredu'r newidiadau i'r pecynnau cymorth ffioedd dysgu a chymorth cynhaliaeth a fydd yn effeithio ar amserlen ymateb Llywodraeth Cymru? |
| Cwestiwn 2. | Oes yna ganlyniadau anfwriadol tebygol o weithredu'r newidiadau i'r pecynnau cymorth ffioedd dysgu a chymorth cynhaliaeth? |
| Cwestiwn 3. | Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer rhannu risgiau a rheoli costau/niferoedd y myfyrwyr sy'n gymwys am gymorth i fyfyrwyr? |
| Cwestiwn 4. | A fydd gweithredu'r cynigion hyn yn rhoi unrhyw grŵp penodol o dan anfantais? |
| Cwestiwn 5. | Mae Llywodraeth Cymru am gynyddu nifer y cyrsiau sydd ar gael ar ddwyster is. Sut allwn ni annog myfyrwyr i astudio cyrsiau â dwyster o lai na 25% heb ddarparu cymorth iddynt? |
| Cwestiwn 6. | Pa effeithiau a chanlyniadau anfwriadol a fydd yn deillio o symud i daliadau cynhaliaeth misol? |

### Ymatebion i'r ymgynghoriad

6. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn croesawu'r cynigion ac roedd yr ymatebion yn rhai cadarnhaol ar y cyfan. Cododd yr ymatebwyr amryw o bryderon ynghylch manylder y cynigion a goblygiadau ehangach eu gweithredu. Mae'r materion hyn wedi'u hamlinellu isod.

***Materion gweithredu sy'n codi o gyflwyno'r system cymorth i fyfyrwyr newydd yn ei chyfanrwydd***

- Mae angen rhaglen gyfathrebu gynhwysfawr fel bod y cynigion yn cael eu hystyried yn rhai cadarnhaol. Mae angen gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar bob myfyriwr llawn amser a rhan-amser, gan gynnwys oedolion a dysgwyr o bell, mewn perthynas â goblygiadau ariannol myfyrwyr o dan wahanol amgylchiadau.
- Mae angen marchnata amserol, yn gynharach yn y cylch ymgeisio o bosibl, er mwyn osgoi unrhyw ddryswch ymhlith darpar ymgeiswyr ynglŷn â'r cymorth sydd ar gael o 2018/19 ymlaen. Mae gan Lywodraeth Cymru gyfraniad i'w wneud yn hyn o beth, ochr yn ochr ag ymgyrchoedd recriwtio sefydliadau AU.
- Ni ddylai fod unrhyw rwystrau mawr i weithredu'r system newydd os bydd yr holl randdeiliaid wedi ymrwymo i wneud hynny mewn ffordd amserol.
- Efallai na fydd gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ddigon o gapasiti i weithredu'r system newydd yn 2018/19 yn ôl y bwriad.
- Bydd angen gwybodaeth glir am gynlluniau mynediad a ffioedd sefydliadau AU.

- Mae angen i benderfyniadau ynghylch pynciau sy'n gysylltiedig ag iechyd gael eu gwneud ar y cyd â thrafodaethau ynghylch trefniadau cymorth i fyfyrwyr.
- Mae angen i newidiadau mewn rhannau eraill o'r DU gael eu monitro fel bod modd nodi unrhyw effeithiau canlyniadol.
- Croesewir gweithredu'r system newydd yn raddol.
- Bydd angen cyllid digonol i gwmpasu'r cyfnod pontio.
- Efallai y bydd gweithredu'r newidiadau i gymorth i fyfyrwyr ochr yn ochr â symudiad tuag at daliadau misol yn cyfaddawdu'r amserlenni arfaethedig.
- Nid yw'r amserlen arfaethedig yn gadael llawer o amser ar gyfer deddfwriaeth neu reoleiddio.
- Dylid sefydlu gweithgor i oruchwylio'r pontio i'r system newydd.
- Mae angen i'r cymorth ariannol i sefydliadau fod ar lefel ddigonol i sicrhau y gallant gadw ffioedd rhan-amser ar lefelau cymedrol a sicrhau cynaliadwyedd ariannol sefydliadau.
- Mae angen eglurder ynglŷn â dyfodol tymor hir y cymorth ariannol ar gyfer addysg nyrsio cyn gynted â phosibl er mwyn darparu sicrwydd i'r sector.

***Effaith ar fyfyrwyr, dulliau recriwtio myfyrwyr a phatrymau astudio***

- Bydd angen i faterion yn ymwneud â myfyrwyr rhan-amser gael eu trafod yn ofalus.
- Mae'n gadarnhaol y bydd sefydliadau'n cael eu cefnogi i gadw ffioedd ar lefel gymedrol ar gyfer cyrsiau rhan-amser er mwyn cymell astudio rhan-amser, ochr yn ochr â'r argymhellion ar gymorth ar gyfer costau byw myfyrwyr rhan-amser.
- Mae'r system newydd yn cynrychioli newid cadarnhaol ar gyfer AU ran-amser a'r rhai sy'n dewis astudio'n rhan-amser. Croesewir sicrhau bod cymorth ar gael i fyfyrwyr rhan-amser sy'n astudio ar ddwyster o 25% neu fwy.
- Croesewir yr egwyddor y bydd myfyrwyr o dan 25 oed yn derbyn yr un cymorth â'r rhai dros 25 oed.
- Gall rhai myfyrwyr ddewis gohirio mynediad o ganlyniad i'r newidiadau. Gallai hyn gael ei liniaru trwy gyflwyno'r system newydd yn raddol.
- Gallai'r pecyn cymorth newydd effeithio ar benderfyniad darpar fyfyrwyr ynghylch a ddylent astudio, ac ymhle. Efallai y bydd llai o fyfyrwyr yn dewis mynd ymlaen i AU o ganlyniad i ofnau ynghylch dyled. Gallai hyn fod yn arbennig o berthnasol i ehangu mynediad.
- Byddai'n werth ystyried gwahanol gostau i fyfyrwyr rhwng gwahanol flynyddoedd mynediad a chyflwyno'r grant ffioedd dysgu newydd yn raddol mewn dau gam, yn hytrach nag un, er mwyn gwrthbwyso unrhyw annhegwch canfyddedig.
- Mae angen eglurder mewn perthynas ag unrhyw ddiogelwch ar gyfer myfyrwyr presennol, y rhai sy'n gohirio mynediad a sut bydd lefel y cymorth yn cael ei gosod ar gyfer myfyrwyr sy'n byw gartref ac yn Llundain.
- Rhaid i'r system newydd allu mynd i'r afael â'r cynnydd mewn ffioedd dysgu yn Lloegr heb effeithio ar y pecyn cymorth cynhaliaeth, neu unrhyw un o'r meysydd eraill a nodwyd yn Adolygiad Diamond. Fel arall, bydd egwyddor yr argymhellion wedi'i chyfaddawdu yn gyfan gwbl.
- Mae paru'r pecyn cynhaliaeth â'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn flaengar, ond mae'n hollbwysig ei fod yn cael ei gostio a'i asesu'n briodol.
- Nid yw hi'n briodol i orfodi rhai myfyrwyr i fod yn destun asesiad o incwm eu teulu os ydynt wedi dieithrio o'r teulu hwnnw. Mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried y ffyrdd y gellir cefnogi'r myfyrwyr hyn.
- Bydd y system newydd ond yn gwneud AU yn fwy hygyrch i'r rhai sydd wir angen y cymorth.

### *Datblygiadau ehangach y tu hwnt i Gymru a'r DU*

- Rhaid i Lywodraeth Cymru a'r sector AU gadw llygad barcud ar ddatblygiad y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (TEF) yn Lloegr a'r Bil Addysg Uwch ac Ymchwil cysylltiedig. Un o'r pryderon mawr gyda'r TEF yw y gallai'r Adran Addysg, a'r Swyddfa Myfyrwyr yn ddiweddarach, ddatblygu mwy o oruchwyliaeth rheoleiddio a pholisi dros sector Cymru nag sydd gan Lywodraeth Cymru a CCAUC ar hyn o bryd.
- Os bydd myfyriwr o'r UE yn dechrau cwrs astudio yng Nghymru yn 2018/19, pan ddisgwylir y bydd yr argymhellion hyn yn cael eu gweithredu, rhaid i'w statws gael ei ddiogelu gydol ei gwrs.
- Un peth sy'n gysylltiedig ag aelodaeth o'r UE yw natur a statws y cynllun Erasmus+, a pha effaith y bydd tynnu'n ôl o'r cynllun yn ei chael ar weithredu argymhellion yr Adolygiad. Mae Cymru'n derbyn mwy o lawer o fyfyrwyr nag y mae'n eu hanfon dramor; pe bai'r myfyrwyr hynny'n aros yng Nghymru, nid yw hi'n glir a fyddai'r sector yn gallu ymdopi heb gyfyngu ar niferoedd/cymorth i fyfyrwyr.

### *Canlyniadau anfwriadol sy'n codi o weithredu'r newidiadau i'r pecynnau cymorth ffioedd dysgu a chymorth cynhaliaeth*

- Efallai y bydd niferoedd myfyrwyr yn gostwng, gan gael effaith anghymesur ar ehangu mynediad a'r rhai o gefndiroedd grwpiau targed.
- Byddai myfyrwyr yn mynd ati'n ddiwyd i groesawu'r system newydd trwy aros yng Nghymru.
- Pe bai sefydliadau Cymru'n cymryd rhan yn y TEF ond yn dewis peidio â chynyddu eu ffioedd dysgu tan ar ôl 2020 a bod rhai o brifysgolion Lloegr yn gallu gwneud hynny, gallai hyn arwain at fwlch dyled. Yn ei dro, gallai hyn olygu y bydd mwy o fyfyrwyr o Gymru a myfyrwyr eraill yn gwneud cais i astudio yng Nghymru er mwyn sicrhau ffioedd dysgu rhatach.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau nad yw'r system newydd yn cael effaith negyddol ar weithlu nyrsio'r dyfodol trwy wneud nyrsio yn gwrs gradd llai deniadol i'w ddilyn ar lefel israddedig. Rhaid i gyrsiau nyrsio arbenigol ar lefel israddedig barhau i fod yn ddeniadol hefyd. Gall unrhyw effaith negyddol ddadsefydlogi dyfodol y system gofal iechyd yng Nghymru.
- Mae angen cefnogi modiwlau llai o faint ac astudiaeth lai dwys fel yr opsiwn mwyaf priodol i lawer o fyfyrwyr, gan gynnwys rhai o'r rhai sydd bellaf oddi wrth AU.
- Dylai myfyrwyr allu pontio'n uniongyrchol i'r pecyn cymorth newydd heb orfod cymryd seibiant o'u hastudio.
- Efallai y bydd rhai sefydliadau AU yn gostwng eu cynnig bwrsari i fyfyrwyr Cymru, a allai arwain at fwy o geisiadau i gronfeydd caledi.
- Efallai y bydd effaith negyddol ar hawl myfyrwyr i gael budd-daliadau. Mae angen canllawiau clir ar gyfer aseswyr.
- Mae angen ystyried yr effaith ar fyfyrwyr Meistr integredig; mae angen cyngor a chyfathrebu effeithiol.
- Mae'r trothwy incwm (£59,000) yn rhy isel, felly bydd yn cael effaith anghymesur ar fyfyrwyr o gefndiroedd incwm canolig.
- Bydd y system yn annog myfyrwyr i astudio'n lleol ac ni fydd yn hyrwyddo mynediad i'r gorau sydd gan y DU i'w gynnig.
- Gallai oedi mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a darparu gwybodaeth arwain at fwy o alw am gronfeydd caledi i fyfyrwyr.

- Mae gwybodaeth am gostau byw prifysgolion yn awgrymu y gall rhai myfyrwyr ddioddef diffyg sylweddol, yn enwedig myfyrwyr annibynnol a'r rhai sy'n dod o deuluoedd incwm isel neu uchel.
- Mae gofynion rhai cyrsiau'n golygu efallai na fydd myfyrwyr yn gallu cyflawni gwaith rhan-amser i ategu eu hincwm; gallai gwneud hynny fod yn niweidiol i'w perfformiad academaidd.
- Bydd dileu'r grant ffioedd dysgu yn effeithio ar lwyddiant recriwtio o'r UE gan y bydd sefydliadau AU Cymru yn cystadlu'n uniongyrchol â sefydliadau AU Lloegr yn yr UE ar y lefel ffi £9,000. Yn y cyfamser, gallai telerau'r DU ar gyfer gadael yr UE arwain at ostyngiad yn nifer y myfyrwyr o'r UE sy'n gwneud cais i astudio yng Nghymru a'r DU.

Materion eraill sy'n codi

- Mae angen proses gadarn, dryloyw ar gyfer monitro a modelu.
- Yn y blynyddoedd cyntaf, efallai y bydd y costau'n uwch gan y bydd dwy system cymorth i fyfyrwyr ar waith yr un pryd.
- Mae angen ymagwedd gydgysylltiedig, integredig.
- Byddai treth graddedigion yn caniatáu i'r rhai sy'n elwa ar ffioedd a gymorthdelir wneud cyfraniad at y gymdeithas.
- Mae angen mwy o eglurder ynglŷn â'r symiau sydd ar gael ar gyfer ysgoloriaethau a bwrsarïau sefydliadau AU.
- Bydd hi'n hanfodol nodi myfyrwyr sy'n disgyn ychydig y tu allan i drothwy'r grant cynhaliaeth.
- Dylid ystyried mabwysiadu'r Cyflog Byw, yn ôl diffiniad y Comisiwn Cyflog Byw, yn hytrach na'r Cyflog Byw Cenedlaethol wrth ystyried gwaelodlin ar gyfer cymorth cynhaliaeth.
- Dylid ystyried cefnogi myfyrwyr sy'n astudio ar ddwyster o lai na 25%.
- Croesewir rhyw fath o gyllid amgen, yn gyson ag egwyddorion cyllid Islamaidd.
- Mae angen egluro'r materion canlynol:
    - A fydd unrhyw gymorth ar gyfer blynyddoedd ar leoliad.
    - A fydd yr hawl i gael grant cymorth arbennig yn effeithio ar lefel y cyllid sydd ar gael i fyfyrwyr.
    - Lefelau cytunedig o ddiystyru ariannol pan fo budd-daliadau unigolyn yn cael eu cyfrifo.
    - Meini prawf cymhwyster ac unrhyw derfyn oedran i ddysgwyr hŷn.
    - Meini prawf cymhwysedd ar gyfer dysgwyr o bell.
    - Atebolrwydd ar gyfer benthyciad neu grant os bydd myfyriwr yn rhoi'r gorau i gwrs.
    - Cyrsiau penben, dysgwyr o bell ac unrhyw derfyn oedran ar gyfer cymorth i fyfyrwyr.

***Awgrymiadau ar gyfer rhannu risgiau a rheoli costau/niferoedd y myfyrwyr sy'n gymwys am gymorth i fyfyrwyr***

- Dylai'r prif fesurau rheoli gynnwys modelu, monitro ac ymchwil gofalus, treialu agweddau ar y cynllun a chyflwyno'r newidiadau'n raddol, fel yr amlinellir yng nghynigion Llywodraeth Cymru.
- Gellid gwneud arbedion ariannol trwy osod y terfyn incwm uchaf ar gyfer cymorth i fyfyrwyr ar lefel is na £59,000.
- Mae angen i'r ymagwedd hon fod yn rhan o gynlluniau mynediad a ffioedd sefydliadau AU, ac efallai adolygiad o dargedau ehangu mynediad.

- Os oedd cymorth i fyfyrwyr ond ar gael i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio yng Nghymru, gallai costau gael eu rheoli trwy gwotâu ar gyfer sefydliadau AU.
- Dylai nifer y llefydd deintyddol gael ei rheoli yn seiliedig ar adolygiadau rheolaidd o'r gweithlu.
- Gallai ceisiadau o'r UE ac unrhyw ostyngiad yn y niferoedd sy'n cael eu recriwtio o'r UE gael eu monitro; gall hyn gynyddu costau trwy leihau'r alwad ar y grant ffioedd.
- Dylai unrhyw fesur i reoli costau a niferoedd myfyrwyr fod yn berthnasol i bob myfyriwr sy'n hanu o Gymru, yn hytrach na'r rhai sy'n astudio yng Nghymru yn unig, a dylai gynnwys darparwyr amgen.
- Mae sawl newid deddfwriaethol ar y gweill a all ddarparu opsiynau pellach. Er enghraifft, gallai'r Bil AU ac Ymchwil roi mwy o hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru osod terfynau ar gyfanswm y cymorth a ddyfernir i fyfyrwyr a'r telerau y mae'r cymorth hwnnw'n cael ei ddyrannu oddi tanynt.

Materion eraill sy'n codi

- Gallai niferoedd/cymorth i fyfyrwyr gael eu cyfyngu trwy flaenoriaethu ymgeiswyr yn seiliedig ar raddau, ond mae'r dull hwn yn cael effaith ddifrifol ar grwpiau ehangu cyfranogiad.
- Ni fyddai capio niferoedd myfyrwyr o fudd i economi Cymru nac yn sicrhau cyfiawnder cymdeithasol.
- O safbwynt stiwardiaeth gyhoeddus, mae'n hanfodol bod unrhyw fyfyriwr nad yw'n cymryd rhan mewn astudiaeth mwyach yn cael ei nodi cyn pob dyddiad talu benthyciad.
- Byddai newid cydbwysedd benthyciadau a grantiau, o ran cyfansoddiad y cymorth i fyfyrwyr, yn beth negyddol i'w wneud (o ragdybio cynnydd yng nghyfran y benthyciad). Byddai hyn yn rhoi mwy o ddyled ar y myfyriwr, gan fynd yn groes i gynigion ac egwyddorion Adolygiad Diamond.
- Ateb arall, yn hytrach na chyfyngu ar nifer y myfyrwyr sy'n gallu cael mynediad at addysg uwch, fyddai cynnig cymhellion i fyfyrwyr sy'n cael mynediad at AB neu brentisiaethau. Gallai hyn gael ei weithredu ochr yn ochr â'r cymorth a roddir i ddarparwyr AU Cymru i sicrhau nad oes rhaid iddynt gyfyngu ar nifer y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru.
- Cyn belled â bod y cymorth i fyfyrwyr yn gludadwy, mae mesurau rheoli niferoedd myfyrwyr a ddefnyddir yn sefydliadau Cymru yn aneffeithiol o ran rheoli costau.
- Mae'n ymddangos bod mesurau rheoli niferoedd myfyrwyr uniongyrchol yn groes i amcanion adroddiad Diamond ac egwyddor polisi Llywodraeth Cymru y dylai'r dewis o sefydliad a chwrs ar gyfer myfyrwyr Cymru gael ei sbarduno gan amgylchiadau ac anghenion unigol.
- Nid yw hi'n glir i ba raddau y mae angen mesurau ychwanegol gan fod ffigurau diweddaraf UCAS yn ymwneud â'r prif ddyddiad cau ar gyfer ceisiadau gan fyfyrwyr israddedig llawn amser yng nghylch ymgeisio 2017 yng Nghymru yn dangos gostyngiad yn nifer y ceisiadau gan fyfyrwyr israddedig llawn amser (gostyngiad o 8% ers cylch 2016). Yn ogystal, mae'r ffigurau ledled y DU yn amlygu amryw o heriau sylweddol megis newid sylfaenol mewn poblogaeth (rhagamcanir y bydd nifer y bobl ifanc 18 oed yng Nghymru yn parhau i ostwng yn sylweddol hyd at 2020) ac effaith proses y DU o adael yr UE.
- Efallai y bydd angen edrych yn ofalus ar sut mae'r risgiau'n cael eu rheoli mewn perthynas â chymorth i fyfyrwyr i astudio y tu allan i Gymru a gyda darparwyr eraill.
- Mewn rhai achosion, mae cyllid rhan-amser wedi'i gyfyngu gan lefel y grant dysgu ac addysgu a ddosberthir i sefydliadau. Sefydliadau fydd yn penderfynu a fyddant yn

recriwtio mwy na'r niferoedd hynny, ond dylai'r myfyrwyr hynny allu cael mynediad at y pecyn cymorth benthyciad a chymorth cynhaliaeth o hyd.

- Gall capio niferoedd myfyrwyr greu rhwystr i astudio yng Nghymru trwy gael effaith anghymesur ar fyfyrwyr nad ydynt yn gallu fforddio astudio rhywle arall.
- Dylid ystyried y gost ariannol i Lywodraeth Cymru o weithredu'r cap.
- Mae mesurau rheoli niferoedd eisoes ar waith mewn disgyblaethau proffesiynol e.e. addysgu a nyrsio.
- Gall y dull hwn arwain at sefydliadau AU yn recriwtio niferoedd uwch mewn pynciau lle nad yw recriwtio wedi'i gapio.
- Gellid ystyried bod capio yn fath o ddogni.
- Gallai'r nenfwd ar gyfer cymorth godi wrth i fudd-daliadau nad ydynt yn dibynnu ar brawf modd gynyddu.
- Rhoddodd y cap blaenorol ar y grant ffioedd dysgu sefydliadau AU Cymru dan anfantais wrth gystadlu yn erbyn sefydliadau Lloegr ar gyfer myfyrwyr o Gymru.
- Dylai unrhyw gynnydd i gost y system gael ei dalu gan Lywodraeth Cymru os yn bosibl; os nad yw hynny'n bosibl, dylid rhannu'r gost gyda myfyrwyr. Mae angen osgoi trosglwyddo'r holl gynnydd mewn costau i fyfyrwyr; byddai hyn yn tanseilio'r egwyddor o 'gyffredinoliaeth flaengar' y cyfeiriwyd ati yn Adolygiad Diamond.
- Byddai'n well i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu nodau ac amcanion strategol tymor hir ar gyfer myfyrwyr yng Nghymru a sefydliadau AU Cymru, a datblygu mesurau i fonitro eu cyflawniadau e.e. nifer y myfyrwyr sy'n hanu o Gymru o sefydliadau AU Cymru sy'n aros ac yn gweithio yng Nghymru.
- Mae dosbarthu'r risg rhwng Llywodraeth Cymru, sefydliadau AU a myfyrwyr yn ymddangos yn synhwyrol.
- Mae profion modd yn gostus ac yn anodd eu gweinyddu.
- Dylai cymorth i fyfyrwyr rhan-amser fod yr un fath â'r cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr llawn amser.
- Dylid cyflwyno ystod ehangach o gymwysterau galwedigaethol lefel uwch.
- O ganlyniad i weithredu'r argymhellion yn Adolygiad Hazelkorn, y gobaith yw y bydd llwybrau myfyrwyr yn ehangu ac y bydd llai o alw am gymorth i fyfyrwyr.
- Croesewir y ffaith bod yna gydnabyddiaeth nad y llwybr i israddedigion yw'r llwybr mwyaf priodol i bawb.

***Anfanteision neu effeithiau negyddol ar grwpiau penodol***

- Myfyrwyr a theuluoedd incwm canolig, a allai gael eu disgrifio fel pobl gyfoethog o ran incwm ond pobl dlawd o ran arian parod (h.y. heb lawer o incwm gwario). Mae hyn yn cynnwys y rhai ag incwm sydd ychydig yn uwch na'r trothwy sydd am gefnogi mwy nag un person yn y teulu trwy brifysgol, waeth a ydynt yn blant neu'n rhieni.
- Teuluoedd un rhiant lle mae'r rhieni wedi ysgaru neu wahanu. Mae hyn yn effeithio ar brofion modd; mae yna wahaniaeth rhwng incwm technegol a threfniadau byw go iawn.
- Myfyrwyr anabl neu fyfyrwyr mewn gwaith llawn amser o bosibl. Efallai y bydd angen i'r unigolion hyn astudio ar ddwyster o lai na 25% a dylid ystyried sut dylai'r myfyrwyr hyn gael eu cefnogi yn eu hamcanion astudio.
- Y rhai sydd angen astudio'n hyblyg. Os nad yw'r pecyn cymorth cynhaliaeth yn ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion astudio unigolyn, byddai'n dda pe bai'r system yn caniatáu i fand cymorth cynhaliaeth unigolyn fynd i fyny ac i lawr yn ystod y flwyddyn.
- Myfyrwyr o deuluoedd incwm isel sydd efallai'n poeni am ymrwymo i fenthyciad am ffioedd ac nad ydynt yn gallu fforddio astudio y tu allan i Gymru.

- Myfyrwyr sy'n ymddieithrio o'u teulu hanner ffordd trwy eu cwrs ac sy'n ei chael hi'n anodd darparu tystiolaeth bod eu hamgylchiadau wedi newid.
- Myfyrwyr rhan-amser sy'n debygol o fod yn hŷn ac â mwy o ymrwymiadau ariannol, neu sy'n derbyn budd-daliadau.
- Myfyrwyr sy'n dod yn gymwys i gyflawni gwaith cymdeithasol trwy radd Meistr; byddant yn derbyn llai o gymorth ariannol na chydweithwyr sydd wedi cymhwyso trwy radd israddedig.
- Myfyrwyr y mae eu teulu'n gwrthod cymryd rhan mewn prawf modd.
- Myfyrwyr ar gyrsiau hwy e.e. myfyrwyr deintyddol os caiff cymorth ychwanegol ei ddileu ar gyfer cyrsiau o'r fath. Croesewir cadarnhad o unrhyw fwriad i barhau â'r cymorth hwn hyd at werth sy'n gyfartal â'r cymorth a ddarperir i'r rhai sy'n astudio cwrs 30 wythnos.
- Myfyrwyr o gefndiroedd incwm uchel, er y bydd ganddynt well amddiffyniad rhag dyled na myfyrwyr o gefndiroedd incwm isel. Bydd myfyrwyr incwm uchel yn gweld effaith cydbwysedd, gan y bydd ganddynt fwy o ddewis mewn perthynas â defnyddio cyfraniadau rhieni ar draul mwy o ddyled.
- Y rhai sydd angen astudio ar ddwyster o lai na 25% e.e. gofalwyr, er mwyn cyflawni eu huchelgeisiau.
- Myfyrwyr yn sefydliadau AU Cymru y credir bod ganddynt lai o adnoddau o gymharu â sefydliadau AU Lloegr.

Materion eraill sy'n codi

- Croesewir cydnabyddiaeth Adolygiad Diamond bod y system yn annigonol i fyfyrwyr incwm canolig.
- Er y croesewir y ffaith y bydd y cynigion yn mynd i'r afael â'r anghydbwysedd mewn perthynas â chymorth i fyfyrwyr rhan-amser, mae Llywodraeth Cymru'n cynnig y dylid darparu cymorth i grŵp mwy dethol o fyfyrwyr rhan-amser nag a ragwelwyd yn adroddiad Diamond, a nodir efallai na fydd y manteision wedi'u rhannu'n gyfartal.
- Gall system rhy gymhleth rwystro myfyrwyr.
- Bydd y dull hwn yn cyfyngu ar gyfleoedd i astudio yng Nghymru, a gall effeithio ar symudedd cymdeithasol.
- Bydd angen monitro'n ofalus gyfraddau cyfranogiad grwpiau cyfranogiad isel.
- Ni ddylai incwm aelwyd effeithio ar gymorth ffioedd. Dylai unrhyw berson ifanc sydd eisiau astudio allu gwneud hynny.
- Mae defnyddio incwm gros i asesu lefel y cymorth a ddyfernir yn annheg gan fod incwm aelwyd yn gallu amrywio yn dibynnu ar raniad y cyflog rhwng y rhai sy'n cyfrannu. Mae incwm net yn fwy perthnasol oherwydd amrywiaeth y cyfraniadau treth ac Yswiriant Gwladol.
- Pe gellid darparu cyllid pan fo ail neu drydydd plentyn yn y brifysgol yr un pryd fel rhaniad cyfartal, byddai hwn yn ddull tecach i deuluoedd sydd islaw'r trothwy enillion o 45% / £150,000.
- Croesewir symudiad i osod cymorth cynhaliaeth ar sylfaen sy'n seiliedig ar grantiau, er bod y cyfnewidiad cysylltiedig ar gyfer dyled ffioedd dysgu lawn yn siomedig. Fodd bynnag, bydd yna lai o gymorth cynhaliaeth ar y cyfan o'i fapio ar y lefel bresennol.
- Croesewir y bwriad i ddisodli'r grant ffioedd dysgu presennol gyda benthyciad ychwanegol. Mae hyn yn galluogi'r adnoddau sydd ar gael i gael eu cyfarwyddo'n well i fyfyrwyr sydd eu hangen fwyaf ac yn galluogi cymorth i fyfyrwyr i dalu'r gost astudio lawn, gan gynnwys cynhaliaeth, sydd wedi'i nodi fel y mater pwysicaf i fyfyrwyr ar hyn o bryd. Yn ogystal, mae'n caniatáu i fuddsoddiad priodol gael ei

wneud mewn prifysgolion er mwyn gwasanaethu myfyrwyr, cymunedau a'r economi yn well. Ar y cyfan, dylai hyn leihau anfantais.
- Mae'r system arfaethedig yn decach o lawer, gan gyflwyno taliad o £1,000 i bob myfyriwr, beth bynnag fo'i gefndir.
- Nid yw myfyrwyr o gefndiroedd ychydig yn gyfoethocach o reidrwydd yn derbyn cymorth gan eu haelwyd.
- Mae angen i Lywodraeth Cymru reoli'r effaith drosiannol ar sefydliadau AU. Bydd eu cyllid yn lleihau cyn i unrhyw un o'r trefniadau newydd ryddhau unrhyw gyllid.
- Mae angen darparu adnoddau ariannol priodol i fyfyrwyr sy'n rhieni.
- Gallai'r rheolau mewn perthynas â phrofion modd ddarparu ar gyfer y ffaith bod gan rai teuluoedd sawl aelod o'r teulu yn astudio mewn AU yr un pryd.
- Mae angen i benderfyniadau ynghylch cymorth i fyfyrwyr a Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl gael eu gwneud ar y cyd.
- Croesewir y cynnig y dylai CCAUC gasglu gwybodaeth am gostau byw ym mhob un o'r sefydliadau AU, ond efallai y bydd hyn yn cael effaith negyddol ar nifer y ceisiadau.
- Bydd angen dadansoddi'r system newydd ar ôl iddi gael ei rhoi ar waith er mwyn nodi unrhyw effeithiau andwyol.
- Efallai y bydd sefydliadau AU Cymru yn gweld effaith negyddol gan fod y system yn annog pobl i astudio y tu allan i Gymru.

***Annog astudio cyrsiau â dwyster o lai na 25%***

Cynigion ar gyfer annog astudio ar ddwyster o lai na 25% heb ddarparu cymorth i fyfyrwyr

- Dylai modiwlau unigol ddenu cymorth i fyfyrwyr hyd yn oed os nad ydynt yn gysylltiedig â chymhwyster – fel modd o gynyddu mynediad a diwallu anghenion astudio unigolion.
- Dylai cyrsiau newydd a phresennol gael eu hachredu.
- Byddai'n ddefnyddiol cryfhau'r gallu i drosglwyddo credyd fel y gall myfyrwyr gronni a throsglwyddo credyd o sypiau astudio llai o faint, ac ar draws gwahanol ddulliau astudio, gan ychwanegu gwerth at gyrsiau llai dwys a'u gwneud yn fwy apelgar i fyfyrwyr.
- Gallai cyflogwyr gael eu cymell i annog  a chefnogi staff i astudio modiwlau byrrach pe bai hynny o fudd i'r gweithlu. Mae cyflogwyr yn gwerthfawrogi modiwlau byrrach gan eu bod yn galluogi eu staff i astudio ystod o waith mwy rhesymol mewn ffordd hyblyg.
- Ymgysylltu â chyflogwyr mawr a'u cyrff cynrychiadol i amlinellu manteision gweithlu hynod fedrus.
- Ymgysylltu â darpar fyfyrwyr ar gyfleoedd am ddatblygiad proffesiynol parhaus ac astudio hyblyg.
- Cefnogaeth gan y Llywodraeth ar gyfer ymgyrchoedd cyfathrebu, mewn cydweithrediad â sefydliadau ambarél megis Prifysgolion Cymru.
- Ymgyrchoedd cyfathrebu uwch sy'n targedu dysgwyr dros 25 oed.
- Hyrwyddo cyfleoedd dysgu rhan-amser, ochr yn ochr â chymorth i fyfyrwyr rhan-amser, fel rhan o'r cynnig addysgol cyffredinol.
- Efallai y bydd cyfle i gonsortia rhanbarthol ddefnyddio ffrydiau ariannu presennol a lleihau costau ffioedd a chynhaliaeth i fyfyrwyr – o bosibl trwy opsiynau astudio pwrpasol.
- Gallai cyrsiau addysg i oedolion gael eu hadfer gan fod llawer wedi dod i ben.

- Gwella hwylustod mynediad e.e. trwy gyrsiau ar-lein.
- Dylai cyfleoedd ar gyfer AU fod yn hygyrch ac yn rhan annatod o gymunedau lleol.
- Dylai Gyrfa Cymru ystyried sut i ddarparu ar gyfer dull pob oedran, gan gynnwys ar gyfer y rhai sy'n ystyried newid gyrfa.
- Gallai Cyllid Myfyrwyr Cymru agor ceisiadau am fenthyciadau rhan-amser yr un pryd â'r rhai ar gyfer astudiaeth llawn amser.
- Dylai mentrau ailhyfforddi Llywodraeth Cymru gynnwys cyrsiau byr dysgu gydol oes, dysgu cyfunol ac opsiynau dysgu o bell.
- Ystyried sut gallai mwy o gydweithredu rhwng AB ac AU a llwybrau datblygu cliriach gefnogi agendâu datblygu sgiliau.
- Cefnogi astudio ar gyfer modiwlau nad ydynt yn cysylltu â chymhwyster yn syth; mae hyn yn cynnig hyblygrwydd ar gynlluniau dysgu i'r dyfodol.

Cynigion ar gyfer annog astudio a fyddai'n gofyn am fuddsoddiad ariannol

- Gallai cymorth gael ei ddarparu i sefydliadau i ddarparu opsiynau dysgu hyblyg a chyrsiau byr gyda llwybrau datblygu clir i gymwysterau AU ffurfiol, gan gynnwys dysgu ar-lein a dysgu o bell.
- Darparu bwrsarïau ar gyfer pynciau blaenoriaeth.
- Parhau â mentrau megis yr hawlildiad ffioedd dysgu, ynghyd â mentrau ehangu cyfranogiad a chymorth ar gyfer grwpiau cyfranogiad isel.
- Sicrhau bod cyllid ychwanegol ar gael, trwy CCAUC, i gefnogi astudio ar ddwyster is.
- Cadw'r premiwm ehangu mynediad a delir i sefydliadau AU.
- Cymell cyflogwyr a sefydliadau cyflogi i ymgysylltu ag uwchsgilio a dysgu seiliedig ar waith.
- Cyflwyno technoleg ffeibr optig yn gyflym ym mhob rhan o Gymru i gefnogi dysgu cyfunol a dysgu o bell mewn cymunedau gwledig.
- Ariannu sefydliadau AU yn uniongyrchol i ddarparu'r cyrsiau hyn; gallai'r cymorth hwn gael ei gymorthdalu i fyfyrwyr.
- Ffioedd isel a hawlildiadau ffioedd.
- Dylai cymorth pro rata fod ar gael i fyfyrwyr sy'n gweithio tuag at gymhwyster addysg uwch, hyd yn oed os yw'r myfyriwr yn astudio ar ddwyster o lai na 25% yn ystod y flwyddyn.

Materion eraill sy'n codi

- Deallir pryder Llywodraeth Cymru ynglŷn â chymhlethdodau a chostau darpariaeth ran-amser.
- Mae cyrsiau dwyster is yn cyflawni swyddogaeth hollbwysig o ran ehangu mynediad at AU ac mae'n gallu bod yn opsiwn delfrydol i'r rhai sydd eisiau astudio a gweithio a'r rhai efallai nad ydynt yn gallu astudio'n fwy dwys.
- Efallai y bydd prinder cymorthdaliadau yn lleihau mynediad a darpariaeth. Os nad oes cymorth i fyfyrwyr, gellid ystyried nad oes digon o alw, felly gall sefydliadau dynnu'r ddarpariaeth yn ôl. Dylai sefydliadau gael eu hannog i ddatblygu a chefnogi'r ddarpariaeth hon.
- Croesewir y ffaith bod cyrsiau Mynediad lefel 0 y Brifysgol Agored yn parhau i gael eu hariannu ac, ar hyn o bryd, maent yn denu cymorth i fyfyrwyr os ydynt yn gysylltiedig â chymhwyster. Mae'r cyrsiau lefel 0 30 credyd (dwyster o 25%) hyn yn llwybr hanfodol i AU i lawer o fyfyrwyr nad ydynt wedi dod trwy lwybrau ysgol neu AB traddodiadol.

- Mae'n bwysig ystyried cynaliadwyedd y ddarpariaeth bresennol o ran diwallu anghenion y gweithlu i'r dyfodol.
- Mae angen mwy o gyfleoedd dysgu hyblyg.
- Croesewir y cynnydd yng nghyfanswm y ddarpariaeth lefel radd sydd ar gael trwy gymwysterau AU sy'n canolbwyntio ar waith, ond efallai y bydd gofynion dwyster yn rhwystro myfyrwyr.
- Byddai trothwy dwyster is yn ddefnyddiol; fel arall, gall darparwyr newid modiwlau er mwyn bodloni gofynion ariannu.
- Dylai newidiadau i Lwfansau Myfyrwyr Anabl ystyried gwahanol anghenion dysgwyr o bell.
- Dylid ystyried modelau dysgu i oedolion mewn gwledydd eraill.
- Dylai cost dysgu hyblyg rhan-amser barhau i fod yn fforddiadwy ac yn hygyrch ar gyfer cydfuddsoddiad a'r rhai sy'n ariannu eu hunain i astudio.
- Dylai rhaglen gytbwys o Brentisiaethau fod ar gael i bob oedolyn, yn hytrach na'r rhai o dan 25 oed yn unig.
- Dylai Llywodraeth Cymru a Phrifysgolion Cymru weithredu argymhellion y Gweithgor Dysgu Digidol Ar-lein, *Open and Online.*
- Mae angen bod yn hyderus y gall y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr reoli trefniadau ar gyfer cefnogi dwyster is; gyda hynny mewn golwg, mae angen nodi trothwy cymhwysedd synhwyrol.
- Gallai'r trothwy o 25% gael ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd trothwy ychydig yn is yn haws ei reoli ac yn fwy effeithiol o ran ymestyn y cymorth.
- Bydd annog darparwyr i gynyddu darpariaeth ran-amser ar gost isel i fyfyrwyr yn gofyn am gyllid ychwanegol.

***Effeithiau a chanlyniadau anfwriadol sy'n deillio o symud i daliadau cynhaliaeth misol***

Effeithiau cadarnhaol posibl o ganlyniad i symud i daliadau misol

- Bydd hyn yn galluogi cyllidebu mwy effeithiol ac yn helpu i leihau'r tebygolrwydd y bydd myfyrwyr yn mynd i ddyled yn ddiweddarach mewn bywyd.
- Byddai taliadau misol yn fwy unol â phatrwm y rhan fwyaf o ddebydau uniongyrchol; gallai hyn leihau nifer y myfyrwyr sy'n talu ffioedd banc.
- Byddai hyn yn helpu myfyrwyr ar incwm isel.
- Gallai hyn helpu i dargedu bwrsarïau mewn sefydliadau.
- Byddai hyn yn helpu i leihau gordaliadau mewn achosion lle mae myfyrwyr wedi rhoi'r gorau i gwrs.

Effeithiau negyddol posibl o ganlyniad i symud i daliadau misol

- Bydd hyn yn cynyddu'r baich gweinyddol ar sefydliadau AU gan fod costau llety yn cael eu rheoli'n dymhorol ar hyn o bryd. Yn ogystal, bydd angen i sefydliadau roi cymorth yn fwy aml i fyfyrwyr sy'n wynebu anawsterau wrth geisio cael taliadau misol gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr.
- Efallai y bydd effaith negyddol ar fyfyrwyr sy'n derbyn budd-daliadau. Bydd angen arweiniad clir ar aseswyr budd-daliadau.
- Efallai y bydd yn golygu na fydd myfyrwyr yn gallu fforddio talu am bethau fel llety a reolir gan y brifysgol ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.
- Nid oes modd gwarantu y byddai sefydliadau y tu allan i Gymru yn addasu eu prosesau i adlewyrchu taliadau misol.

- Gall hyn arwain at fwy o bwysau ar gronfeydd caledi a bwrsarïau sefydliadau AU o ganlyniad i fyfyrwyr yn rhedeg allan o arian.
- Er y gallai sefydliadau AU ystyried newid i daliadau misol i fyfyrwyr ar gyfer llety a gwasanaethau eraill, ni fyddant yn gallu dylanwadu ar landlordiaid preifat a fydd efallai'n gweld myfyrwyr fel risg uwch ac yn lleihau cyfanswm y llety sydd ar gael iddynt.

Sylwadau eraill ar daliadau misol

- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ffyrdd y gallai'r taliadau ymlaen llaw hyn gael eu trafod gan y system gynhaliaeth.
- Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu trefniadau eraill y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr dros weithredu system fisol ar hyn o bryd, gan ganiatáu mwy o amser i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau llif arian posibl.
- Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r taliad misol cyntaf yn uwch fel y gall myfyrwyr dalu costau ymlaen llaw ar ddechrau eu cwrs.
- Yn ddelfrydol, byddai un system ledled y DU ar gyfer gwneud taliadau cymorth i fyfyrwyr. Yn y cyfamser, gallai Llywodraeth Cymru godi'r mater gyda sefydliadau AU eraill yn y DU, yn enwedig y rhai â niferoedd uwch o fyfyrwyr o Gymru.
- Byddai angen mwy o eglurder ynghylch strwythur taliadau misol. Er enghraifft, a fyddai'r rhain yn cynnwys 12 taliad cyfartal neu'n gysylltiedig ag amser tymor, pan fo myfyrwyr yn wynebu mwy o gostau, ac a fyddai myfyrwyr yn gallu dewis rhwng yr opsiynau hyn.
- Rhaid i'r taliad cyntaf hwn gael ei wneud yn unol â dechrau cwrs myfyriwr, yn hytrach nag ar ôl hynny.
- Ar gyfer asesiadau hwyr, dylai'r taliad cyntaf gynnwys unrhyw daliadau sy'n ddyledus.
- Gall taliadau misol annog myfyrwyr i barhau i astudio yn hytrach na cheisio cael cyflogaeth os ystyrir bod modd gwneud taliadau cymorth misol yn lle taliadau cyflog misol.
- Gallai'r taliad cymorth cyffredinol o £1,000 gael ei wneud ymlaen llaw, gyda gweddill y cymorth yn cael ei dalu'n fisol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

7. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd ac a gyflwynwyd gan Adolygiad Diamond, mae Llywodraeth Cymru'n teimlo bod yr achos dros newid wedi'i ddangos. Amlinellodd ymateb Llywodraeth Cymru ar 22 Tachwedd system cymorth i fyfyrwyr ddiwygiedig ar gyfer myfyrwyr israddedig llawn a rhan-amser. Mae ystyriaeth o'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cadarnhau'r farn hon.

8. Cadarnhaodd yr ymgynghoriad hefyd fod rhanddeiliaid yn awyddus i weld y system cyllid a chymorth i fyfyrwyr newydd yn cael ei chyflwyno erbyn dechrau blwyddyn academaidd 2018/19, ac y dylai hyn gael ei gyfathrebu'n glir i fyfyrwyr. Mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr wedi cadarnhau y bydd yn gallu rhoi'r newidiadau hyn ar waith ar gyfer 2018/19. Yng ngoleuni'r ystyriaethau uchod, byddwn yn cyflwyno'r system ganlynol o gymorth i fyfyrwyr o 2018/19 ymlaen, yn amodol ar y rheoliadau angenrheidiol yn cael eu pasio trwy system ddeddfwriaethol y Cynulliad. Byddwn yn sicrhau ein bod yn monitro effaith y system newydd ar wahanol grwpiau o fyfyrwyr, fel y nodwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

### *Cymorth cynhaliaeth*

- Bydd grant cynhaliaeth cyffredinol gwerth £1,000 nad yw'n dibynnu ar brawf modd ar gael i bob myfyriwr cymwys sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru – bydd y grant hwn yn un pro rata ar gyfer myfyrwyr rhan-amser h.y. bydd myfyrwyr sy'n astudio ar ddwyster o 50% yn derbyn £500.
- Bydd grant ychwanegol sy'n dibynnu ar brawf modd ar gael i gyfrannu at gostau byw. Rydym yn cynnig y dylid cyflwyno tapr prawf modd ar gyfer cymorth grant cynhaliaeth sy'n fwy hael na'r tapr presennol ar gyfer incwm aelwyd (hyd at £59,200).
- Bydd uchafswm y grant cynhaliaeth yn cael ei osod ar y lefel a argymhellwyd yn Adolygiad Diamond, yn y lle cyntaf, gyda benthyciad ychwanegol wedi'i ddarparu i sicrhau bod lefel y cymorth cynhaliaeth yn adlewyrchu'r twf yn y Cyflog Byw Cenedlaethol.
- Bydd benthyciadau cynhaliaeth ar gael i'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael grant. Ni fydd y benthyciad cynhaliaeth yn dibynnu ar brawf modd ar gyfer myfyrwyr o aelwydydd incwm uwch sy'n derbyn grant ar lefel is na'r uchafswm.
- Bydd cyfanswm y benthyciad sydd ar gael yn gyfartal ag uchafswm lefel y cymorth cynhaliaeth, namyn unrhyw grant sy'n dibynnu ar brawf modd.
- Bydd myfyrwyr rhan-amser yn derbyn fersiwn wedi'i haddasu o'r cymorth cynhaliaeth sydd ar gael i fyfyrwyr israddedig llawn amser (h.y. cyfran o'r grant cynhaliaeth gwerth £1,000 nad yw'n dibynnu ar brawf modd, gyda grant ychwanegol sy'n dibynnu ar brawf modd hyd at uchafswm yn seiliedig ar £6,000 cyfwerth ag amser llawn, ond gydag uchafswm y grant ar gael hyd at incwm aelwyd o £25,000).
- Bydd y grantiau a'r lwfansau a dargedir sydd ar gael i fyfyrwyr israddedig, sef y Grant Gofal Plant, y Grant Oedolion Dibynnol, y Lwfans Dysgu i Rieni a'r Lwfans i Fyfyrwyr Anabl, yn parhau i fod ar gael.

### *Cymorth gyda ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr llawn amser*

- Byddwn yn cyflwyno benthyciad ychwanegol â chymhorthdal i fyfyrwyr yn lle'r grant ffioedd dysgu presennol ar gyfer myfyrwyr israddedig llawn amser, hyd at yr uchafswm ffi presennol sy'n berthnasol yn 2018/19 (£9,000 ar hyn o bryd yng Nghymru, a £9,250 yng ngweddill y DU). Bydd hyn ar gael ble bynnag mae myfyrwyr yn astudio yn y DU.
- Ar gyfer y rhai sydd eisiau ad-dalu eu benthyciad, byddant yn dal i allu dewis rhwng taliad uniongyrchol neu ad-daliad cynnar.
- Bydd ad-daliadau benthyciad yn parhau ar gyfradd o 9% o gyflog graddedigion sy'n uwch na £21,000 (wedi'i rewi tan 2021) a'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir mewn perthynas ag ad-daliadau a osodir gan Drysorlys Ei Mawrhydi (0.7% ar hyn o bryd). Dyma'r polisi ad-dalu ledled y DU.

### *Cymorth gyda ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr rhan-amser*

- Bydd benthyciadau ffioedd dysgu yn dal i fod ar gael i'r myfyrwyr cymwys hynny sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac sy'n astudio ar ddwyster o fwy na 25%.
- Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i ddarparu cyllid grant i CCAUC i gymorthdalu cyrsiau rhan-amser. Mae hyn yn golygu y bydd myfyrwyr rhan-amser yn dal i orfod talu ffioedd wedi'u safoni.
- Bydd benthyciad ffioedd dysgu â chymhorthdal ar gael i fyfyrwyr rhan-amser i dalu'r ffi wedi'i safoni.
- Bydd y benthyciad ffioedd dysgu, cymorth cynhaliaeth a'r grant sefydliadol i'r SAU ar gael i fyfyrwyr rhan-amser sy'n astudio ar ddwyster o fwy na 25%.

9. Nid oedd yna gonsensws ar rannu a rheoli risgiau, ar sut i annog cynnydd yn nifer y bobl sy'n astudio ar ddwyster is neu ar wneud taliadau cynhaliaeth misol. Felly, bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid ar y tri mater hwn fel y gallwn ni gyflawni'r ymrwymiadau yn ymateb cychwynnol y Llywodraeth.

10. Er mwyn gweithredu ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Diamond, bydd y camau canlynol yn cael eu cymryd:

- Sefydlu gweithgor sefydlogrwydd a chynaliadwyedd i ystyried opsiynau ymarferol ar gyfer rhannu risg. I gychwyn, bydd y grŵp hwn yn cynnwys swyddogion mewnol, ond ymgynghorir â rhanddeiliaid allweddol cyn cyflwyno cyngor terfynol i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

- Gweithio gydag Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill (gan gynnwys prifysgolion a landlordiaid) i ystyried manteision ac anfanteision symud i daliadau cynhaliaeth misol. Bydd y grŵp yn gobeithio dod i gonsensws ar y camau nesaf cyn darparu cyngor i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

- Gweithio gyda CCAUC i ystyried y camau nesaf o ran cymell pobl i astudio ar ddwyster is.

## Cyflwyno system ran-amser wedi'i rheoleiddio'n llawn

### Ein cwestiynau

11. Gofynnwyd y cwestiynau canlynol ynghylch ein bwriad i gyflwyno system ran-amser wedi'i rheoleiddio'n llawn.

| | |
|---|---|
| Cwestiwn 7. | Sut bydd symud i system wedi'i rheoleiddio'n llawn yn effeithio ar ddarparwyr rhan-amser yng Nghymru? |
| Cwestiwn 8. | Ydych chi'n credu y bydd unrhyw agwedd ar y polisi hwn yn peri anfantais i unrhyw grwpiau penodol? |
| Cwestiwn 9. | Ydych chi'n credu bod y nod o gael system ran-amser wedi'i rheoleiddio'n llawn erbyn 2021 yn amserlen realistig? |

### Ymatebion i'r ymgynghoriad

***Effaith symud i system wedi'i rheoleiddio'n llawn ar ddarparwyr rhan-amser yng Nghymru***

Sylwadau o blaid symud i system ran-amser wedi'i rheoleiddio:

- Os caiff ei rhoi ar waith yn iawn, mae gan y system hon y potensial i wneud addysg uwch yn fwy hygyrch o lawer yng Nghymru.
- Mae rheoleiddio yn angenrheidiol i raddau i sicrhau cysondeb, ansawdd, tryloywder a gwerth am arian.
- Bydd rheoleiddio llawn yn cefnogi prosesau cynllunio sefydliadau AB mewn cydweithrediad â phartneriaethau AU.
- Dylai ymagwedd gyfannol, integredig at sefydliadau AB ar gyfer eu gwaith rheoleiddio AU gynorthwyo sefydliadau AB a gwella dyblygiad presennol mewn perthynas â'r broses o gymeradwyo cynlluniau mynediad a ffioedd.
- Gallai hyn arwain at well cynaliadwyedd a lleihau'r angen i draws-gymorthdalu pynciau.
- Gallai hyn alluogi darparwyr i ddiwallu anghenion unigolion a chyflogwyr yn well ac i gyflawni'r amcanion a amlinellir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2014.
- Os bydd rôl a swyddogaethau CCAUC yn cael eu hymgorffori yn yr Awdurdod Addysgu ac Addysg newydd, mae'n ymddangos bod hwn yn amser priodol i ddechrau trawsnewid ac alinio pob darparwr AU.
- Gallai system wedi'i rheoleiddio'n llawn wella ansawdd y cyrsiau.

Sylwadau yn erbyn symud i system ran-amser wedi'i rheoleiddio:

- Dylai Llywodraeth Cymru asesu a yw unrhyw ddarparwyr yn cynnig y rhan fwyaf o'u cyrsiau ar ddwyster o lai na 25%, gan y gallant gael eu heffeithio gan fyfyrwyr yn dewis astudio mewn sefydliadau lle gallant dderbyn cyllid yn unig.
- Gallai capio ffioedd arwain at ddarparwyr yn codi'r ffi uchaf posibl, beth bynnag fo dwyster y cyrsiau. Gallai hyn fod yn gyfyngol ac arwain at lai o ddarpariaeth ran-amser.

- Dylai uchafswm lefel ffioedd fod o ganlyniad i bolisi bwriadol, yn hytrach nag oherwydd bod darparwyr darpariaeth ran-amser yn dod o dan Ddeddf AU (Cymru) 2015; gallai hyn wneud rhai darparwyr yn anghystadleuol.
- Bydd hyn yn golygu costau gweinyddol uwch i sefydliadau AU.
- Dylid defnyddio dull ysgafn a hunanasesiad lle bo hynny'n bosibl.
- Gallai terfynau ffioedd effeithio ar ddarpariaeth cyrsiau; mae rhai cyrsiau'n dibynnu ar lefelau ffioedd pro rata uwch.
- Gallai hyn arwain at ostyngiad yn nifer y cyrsiau rhan-amser sydd ar gael ac yn amrywiaeth y cyrsiau, gall beri risg arbennig i gyrsiau arbenigol a gallai effeithio ar grwpiau penodol o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd incwm isel a'r rhai sy'n dysgu am resymau proffesiynol.
- Ni fydd rheoleiddio darpariaeth yn cynyddu'r rheolaeth dros gyllid cymorth i fyfyrwyr, gan y bydd yna botensial o hyd ar gyfer cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio y tu allan i Gymru. Byddai angen gwaith cynllunio a monitro gofalus i reoli risgiau.

Materion eraill sy'n codi

- Mae yna ddiffyg eglurder ynglŷn â sut beth fyddai'r system honno a beth y byddai'n ei gynnwys.
- Ni fyddai cynnwys darpariaeth ran-amser yn Neddf AU (Cymru) 2015 yn newid y trefniadau rheoleiddio mewn perthynas â sicrhau ansawdd neu drefniadau rheolaeth ariannol darpariaeth ran-amser mewn prifysgolion. Ar hyn o bryd, mae pob prifysgol yng Nghymru yn sefydliad wedi'i rheoleiddio. Mae pob cwrs, gan gynnwys cyrsiau rhan-amser a ddarperir yng Nghymru gan sefydliadau wedi'u rheoleiddio, yn ddarostyngedig i ofynion ansawdd Deddf AU (Cymru) 2015, ac mae'r sefydliadau'n ddarostyngedig i ofynion y Cod Rheolaeth Ariannol. Fodd bynnag, gallai alluogi darparwyr rhan-amser yn unig i ddod yn sefydliadau wedi'u rheoleiddio; rhywbeth nad yw'n berthnasol ar hyn o bryd.
- Mae angen ystyried sut bydd hyn yn effeithio ar sefydliadau AB yng Nghymru i sicrhau bod gwasanaethau myfyrwyr yn darparu'r wybodaeth gywir i fyfyrwyr.
- Mae trefniadau cynlluniau mynediad a ffioedd eisoes yn darparu rhywfaint o reoleiddio i sicrhau gwerth am arian i fyfyrwyr.
- Dylai mesurau atebolrwydd cyhoeddus tebyg gael eu rhoi ar waith mewn perthynas â darpariaeth llawn amser.
- Byddai'r ymagwedd hon yn gofyn am gysondeb ar draws cynlluniau sefydliadau.
- Mae angen pennu'r prif reswm dros reoleiddio h.y. i bennu cymhwysedd i gael cymorth i fyfyrwyr neu i reoli'r sector rhan-amser.
- Mae'n bosibl bod y twf mewn dysgu o bell yn faich ar y system.
- Byddai angen sicrhau nad yw rheoleiddio wedi'i gyfyngu i sefydliadau wedi'u rheoleiddio yn unig, o ystyried y potensial ar gyfer twf darparwyr eraill yn y dyfodol.
- Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau y bydd yn rhoi mesurau rheoli priodol a chymesur ar waith ar gyfer darparwyr na fyddant yn dewis dod yn sefydliadau wedi'u rheoleiddio.
- Bydd angen cyllid digonol i ddarparu ar gyfer unrhyw dwf mewn darpariaeth ran-amser.
- Efallai y bydd yr amserlen yn anymarferol o ystyried y gofynion ar gyfer cyflwyno cynlluniau mynediad a ffioedd ar gyfer 2018/19.
- Dylai'r benthyciad ffioedd dysgu gwmpasu ffioedd rhan-amser; dylai ffioedd wedi'u rheoleiddio gefnogi hyn.
- Mae hwn yn fater atebolrwydd cyhoeddus priodol, ond byddai angen asesu effaith sgrinio canllawiau cynlluniau mynediad a ffioedd ar gydraddoldeb.

- Dylai'r cynnig gael ei fapio a'i werthuso. Dylai hyn leihau unrhyw anfanteision posibl i ddarpariaeth/dysgwyr rhan-amser yn y cyfamser.
- Mae yna bryderon ynglŷn â'r cynnig i gymell astudio ar ddwyster o lai na 25% heb gymorth ffurfiol i fyfyrwyr.

***Anfanteision neu effeithiau negyddol ar grwpiau penodol o ganlyniad i'r polisi hwn***

- Myfyrwyr sy'n derbyn budd-daliadau e.e. rhieni sengl. Gallai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â hyn trwy gadarnhau gyda'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr/yr Adran Gwaith a Phensiynau y dylai'r benthyciad gael ei drin fel cymorth ar gyfer cyrsiau astudio, sy'n golygu na fydd yn cael ei gynnwys mewn cyfrifiadau budd-daliadau.
- Myfyrwyr dros 60 oed.
- Myfyrwyr o gefndiroedd incwm isel.

***A yw'r nod o gyflawni system ran-amser wedi'i rheoleiddio'n llawn erbyn 2021 yn ymarferol***

- Mae 2021 yn darged ymarferol, cyn belled â:
    - bod digon o adnoddau ac ymrwymiad i gynnal adolygiadau rheoleiddio mewn perthynas â sefydliadau AU;
    - bod canllawiau ar gynlluniau mynediad a ffioedd yn cael eu darparu mewn ffordd amserol;
    - bod y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn rhoi digon o flaenoriaeth i ofynion Llywodraeth Cymru.
- Dylid annog dull cydweithredol rhwng CCAUC a sefydliadau AU.
- Dylid osgoi dull sy'n feichus yn weinyddol.
- Dylai Llywodraeth Cymru gael adborth gan y sefydliadau sy'n debygol o gael eu heffeithio ac ailystyried yr amserlen fel sy'n briodol.
- Bydd maint a chwmpas y rheoleiddio'n dylanwadu ar hyn. Mae angen eglurhad ynghylch a fydd y system wedi'i chyfyngu i raddau a chymwysterau AU eraill.
- Mae'r amserlenni ar gyfer cyflawni system ran-amser wedi'i rheoleiddio'n llawn yn rhai tynn, o ystyried cyd-destun y newidiadau ehangach sydd ar waith yn y sector AU yng Nghymru, nid yn unig o ran gweithredu argymhellion Diamond, ond hefyd o ran cyflwyno Addysg Iechyd Cymru.
- Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod darparwyr rhan-amser yn cael cymorth digonol i helpu gyda'r pontio.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

11.Cynigiodd ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Diamond y dylid datblygu system ran-amser wedi'i rheoleiddio'n llawn erbyn 2021. Byddai hyn yn golygu y byddai angen i ddarparwyr cyrsiau AU rhan-amser sydd am i'w cyrsiau gael eu dynodi'n awtomatig at ddiben cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru wneud cais i CCAUC am gymeradwyaeth ar gyfer cynlluniau mynediad a ffioedd. Yn amodol ar y gymeradwyaeth honno, byddai'n ofynnol i ddarparwyr gydymffurfio â darpariaethau mynediad teg y cynlluniau hynny, terfynau ffioedd dysgu, gofynion asesu ansawdd CCAUC a chod rheolaeth ariannol CCAUC.

12. Yn seiliedig ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad a ddaeth i law, mae'n ymddangos mai symud i system ran-amser wedi'i rheoleiddio'n llawn fyddai'r penderfyniad cywir. Fodd bynnag, mae'n glir bod yna amryw o gymhlethdodau sy'n golygu bod angen gwneud mwy o waith ar gyfathrebu a deall ac amserlenni cyn rhoi'r penderfyniad hwn ar waith.

13. Felly, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i werthuso’r dystiolaeth yn llawn, yn ennill dealltwriaeth lawn o’r manylion ac yn sefydlu amserlen ar gyfer rhoi system ddiwygiedig ar waith. Bydd angen i hyn fod yn gysylltiedig â’r gwaith sy’n cael ei gyflawni mewn perthynas ag ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Hazelkorn.

## Darpariaeth gradd Meistr ôl-raddedig a addysgir

### Ein Cwestiynau

14. Gofynnwyd y cwestiynau canlynol ynghylch gweithredu ein newidiadau arfaethedig i'r pecyn cymorth ar gyfer myfyrwyr graddau Meistr a addysgir.

| | |
|---|---|
| Cwestiwn 10. | Oes yna broblemau mawr y dylem eu hystyried wrth gyflwyno ein cynigion ar gyfer cymorth i fyfyrwyr ôl-raddedig? |
| Cwestiwn 11. | Oes yna ganlyniadau anfwriadol tebygol o weithredu'r cynigion hyn? |
| Cwestiwn 12. | A fydd gweithredu'r cynigion hyn yn rhoi unrhyw grŵp penodol o dan anfantais? |
| Cwestiwn 13. | Rydym yn credu y byddai'n gymhleth a chostus i reoleiddio'r system ôl-raddedig yn llawn – ydych chi'n cytuno ac os na, sut fyddech chi'n gweithredu system wedi'i rheoleiddio'n llawn yng Nghymru? |
| Cwestiwn 14. | Oes yna unrhyw ffordd arall o weithredu'n cynigion ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig a fyddai'n hyrwyddo mynediad cyfartal yn well? |

### Ymatebion i'r ymgynghoriad

#### *Unrhyw faterion gweithredu y dylid eu hystyried*

- Byddai'n ddefnyddiol pe gallai Llywodraeth Cymru adolygu'r meini prawf i alluogi myfyrwyr i gwblhau astudiaeth ran-amser o fewn amserlen hwy na dwywaith yr amser y mae'n ei gymryd i fyfyriwr llawn amser. Mae hyn yn ymwneud â materion cydraddoldeb; mae myfyrwyr anabl yn fwy tebygol o ddewis opsiynau astudio hwy.
- Byddai unrhyw gwrs sy'n cynnwys blwyddyn ôl-raddedig integredig yn codi'r un ffi ag a addawyd ym mlwyddyn gyntaf yr astudio israddedig. Byddai'n amhriodol yn foesol i brisio myfyriwr allan o gwrs y mae'n ei astudio'n barod.
- Mae angen ystyried teilyngdod ailasesu yn ofalus. Byddai'n decach astudio sefyllfa ariannol myfyrwyr ar ôl nifer benodol o flynyddoedd, o ystyried y gwahaniaeth yn hyd gwahanol gyrsiau israddedig.
- Byddai'n bryder mawr pe bai'r gweithredu'n cael ei ohirio, o ystyried y ffaith bod cymorth tebyg eisoes ar gael yn Lloegr.
- Dylid osgoi cyfradd llog newidiol; dylai'r gyfradd gael ei haddasu ochr yn ochr â chyfradd Banc Lloegr, nid RPI.
- Gallai benthyciadau gael eu gweinyddu trwy Fanc Cymru neu fenthyciwr stryd fawr arall.
- Efallai y bydd angen capio niferoedd myfyrwyr, ochr yn ochr ag anghenion datblygu'r gweithlu a blaenoriaethau cenedlaethol presennol.
- Dylai myfyrwyr sy'n dechrau astudiaeth ôl-raddedig o dan y drefn interim dderbyn yr un amddiffyniad cohort ag sydd wedi'i gynnig i fyfyrwyr israddedig. Fel arall, bydd hyn yn cymhlethu'r system a'r pontio i fyfyrwyr a rhanddeiliaid.
- Dylai taliadau misol gael eu hymestyn i fyfyrwyr ôl-raddedig.
- Dylai'r gwaith o brosesu benthyciadau gael ei gyflawni gan dîm rhan-amser arbenigol.

- Mae'n ymddangos y byddai cynnwys incwm rhieni fel rhan o brawf modd yn amhriodol, o ystyried bod myfyrwyr ôl-raddedig yn fwy amrywiol.
- Dylai benthyciadau ôl-raddedig fod ar gael i fyfyrwyr ar gyrsiau â bwrsarïau efallai na fyddant yn ddigon i dalu ffioedd a chostau byw.
- Dylai darpar fyfyrwyr ôl-raddedig Cymru allu cael mynediad at fenthyciadau.
- Dylai fod gan fyfyrwyr yr opsiwn i gael eu benthyciad ffioedd dysgu wedi'i dalu'n uniongyrchol i'w sefydliadau AU; byddai hyn yn lleihau'r risg o ffioedd heb eu talu o ganlyniad i gamreolaeth ariannol gan fyfyrwyr.
- Mae angen dosbarthu gwybodaeth yn amserol i israddedigion os ydynt yn bwriadu symud ymlaen i astudiaeth ôl-raddedig.
- Dylid ystyried ymestyn y cymorth i fyfyrwyr â chymwysterau cyfwerth neu is sy'n astudio pynciau o bwysigrwydd cymdeithasol/economaidd.
- Mae'n debygol y bydd £17,000 yn swm annigonol i dalu costau byw ac astudio astudiaeth ôl-raddedig.
- Byddai'n ddefnyddiol pe bai yna dimau arbenigol i gefnogi myfyrwyr rhan-amser.
- Bydd gallu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr i weithredu'r cynigion hyn yn hollbwysig.
- Mae angen i staff Cyllid Myfyrwyr Cymru fod yn glir ynglŷn â phreswyliaeth ac asesiad.
- Mae angen eglurhad mewn perthynas â'r canlynol:
    - Cymhwysedd o ran lefel dwyster yr astudio.
    - A fydd cymorth ariannol ar gael i fyfyrwyr sy'n graddio yn 2017/18 ac sydd eisoes wedi'u derbyn ar gyrsiau Meistr integredig.
    - A oes yna derfyn oedran ar y cymorth hwn.
    - Sut bydd y system yn ymdrin â myfyrwyr sy'n ailadrodd blwyddyn neu sydd wedi defnyddio blwyddyn ychwanegol ar lefel israddedig.
    - Sut bydd y system newydd yn berthnasol i fyfyrwyr ôl-raddedig presennol, ac a fyddant yn gymwys i wneud cais am unrhyw gymorth.
    - Y broses asesu ar gyfer myfyrwyr sy'n derbyn budd-daliadau.
    - A fydd cymorth ariannol ar gael ar gyfer pob math o gwrs ôl-raddedig, gan gynnwys cyrsiau Meistr ymchwil.
    - A fydd myfyrwyr Meistr integredig yn gymwys i gael cyllid israddedig neu ôl-raddedig.
    - A fydd grantiau a dargedir a'r Grant Cymorth Arbennig ar gael. Os na fyddant ar gael, gall hyn effeithio ar fynediad.
    - A yw'r cynigion yn cwmpasu dysgu o bell. Os felly, dylai hyn gael ei gwmpasu gan y gyfradd 'byw gartref' lle bo hynny'n berthnasol.
    - Meini prawf preswyliaeth a chymhwysedd, yn enwedig fel bod myfyrwyr yn deall y system newydd a sut mae'n wahanol i'r hyn sydd ar gael mewn rhannau eraill o'r DU.
    - Sefyllfa myfyrwyr o'r UE o ystyried penderfyniad y DU i adael yr UE.

Materion eraill sy'n codi

- Mae pobl ifanc angen diogelwch a'r cyfle i ad-dalu dyledion cyn iddynt ymddeol.
- Rhagwelir y bydd rheoleiddio'n parhau ar gyfer rhai cymwysterau ôl-raddedig; bydd hyn yn gofyn am ystyriaeth ychwanegol.
- Nid yw cymhlethdod rheoleiddio'r system yn gorbwyso'r argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad terfynol.
- Bydd penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â chapio ffioedd ôl-raddedig a addysgir ac i beidio â darparu premiwm pwnc drud trwy CCAUC ar gyfer pynciau cost uwch yn cael effaith negyddol ar lwyddiant gweithredu'r argymhellion hyn.

- Cyrsiau israddedig tair blynedd neu gyrsiau ôl-raddedig dwy flynedd llawn amser yw rhaglenni cymhwyso gofal cymdeithasol yn bennaf; felly, nid yw cyfyngu ar y mynediad at gyllid am flwyddyn ar gyfer astudio ôl-raddedig yn ymwneud â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn yr achos hwn.
- Mae'r ateb tymor hir a gynigir gan Adolygiad Diamond yn hollbwysig i gynaliadwyedd y polisi presennol, o ystyried bod gallu sefydliadau AU Cymru i gyflawni rhaglenni ôl-raddedig yn ansicr o hyd. Croesewir y polisi interim gan ei fod yn sicrhau bod Cymru yn yr un sefyllfa â gweddill y DU.
- Mae'n fater o gyfiawnder cymdeithasol y dylai pawb gael cyfle i gael mynediad at astudiaeth lefel uwch.
- Gall hyn effeithio ar gymhwysedd i gael budd-daliadau. Ni ddylai ôl-raddedigion sy'n derbyn budd-daliadau gael eu rhwystro rhag astudio.
- Efallai na fydd myfyriwr yn defnyddio'r cymorth hwn i dalu ei ffioedd.

***Unrhyw ganlyniadau anfwriadol o weithredu'r cynigion hyn***

- Heb ryw fath o gap, mae'n bosibl y bydd sefydliadau AU yn codi eu ffioedd yn unol â lefel y benthyciad sydd ar gael. Byddai hyn yn rhoi llawer o fyfyrwyr ôl-raddedig a addysgir mewn sefyllfa lle disgwylir iddynt dalu costau llawn y ddarpariaeth.
- Mae'n hollbwysig bod CCAUC yn arolygu ffioedd ôl-raddedig i sicrhau nad yw myfyrwyr yn mynd i ddyled ac nad yw sefydliadau'n gallu cam-fanteisio ar y system cyllid ôl-raddedig newydd. Er y dylai sefydliadau allu gosod eu lefelau ffioedd eu hunain, ni ddylai hyn gael ei wneud heb wiriadau a balansau effeithiol.
- Gallai peidio â darparu'r ffioedd ategol ar gyfer cyrsiau uwch arwain at lai o alw am y cyrsiau hyn.
- Mae addysg uwch yng Nghymru yn gyfyngedig o ran nifer y cyrsiau ôl-raddedig arbenigol a addysgir, ac mae gan lawer o'r rhain gostau uwch. Bydd dileu'r cymorth ychwanegol o Lywodraeth Cymru a gofyn i fyfyrwyr dalu'r costau yn atal myfyrwyr rhag cael mynediad at y cyrsiau hyn.
- Gyda llai o alw am y cyrsiau hyn, a chyllidebau tynnach, mae yna bosibilrwydd y bydd angen i sefydliadau ystyried lleihau eu darpariaeth o gyrsiau cost uchel neu eu dileu yn gyfan gwbl, gan leihau cyfleoedd myfyrwyr i astudio yng Nghymru. Gallai hyn effeithio ar hyfywedd y rhaglenni hyn, sy'n golygu na fydd sefydliadau AU Cymru yn gallu eu cynnig, gan leihau cyfleoedd i bob myfyriwr.
- Gallai hyn effeithio ar sut mae sefydliadau AU yn marchnata cyrsiau a sut mae myfyrwyr yn ymrestru arnynt. Er enghraifft, gallai effeithio ar opsiynau astudio ar ddwyster o lai na 25%.
- Gallai fod yna ostyngiad yn nifer y ceisiadau ar gyfer 2017/18 os bydd myfyrwyr yn penderfynu oedi am flwyddyn.
- Mae yna risg y bydd diffygion y system cymorth ôl-raddedig a roddwyd ar waith yn Lloegr yn cael eu hailadrodd. Er enghraifft, methu â chefnogi cyrsiau sy'n para llai na dwy flynedd.
- Gallai hyn gynyddu'r lefelau dyled ar gyfer y genhedlaeth nesaf o fyfyrwyr.
- Gallai fod yna ganlyniadau anfwriadol ar gyfer grwpiau penodol o fyfyrwyr/meysydd darpariaeth:
  - Cymhwyster lefel mynediad ac astudiaeth flaenorol.
  - Cyrsiau â lefelau ffioedd uwch e.e. MBAs. Efallai y bydd hi'n anoddach cael mynediad at y rhain os nad yw'r ffioedd yn cael eu cwmpasu gan y cymorth sydd ar gael.

  - Myfyrwyr sy’n ymddieithrio o’u teulu hanner ffordd trwy eu cwrs. (Efallai y byddant yn ei chael hi’n anodd darparu tystiolaeth bod eu hamgylchiadau wedi newid.)
  - Myfyrwyr o gefndiroedd incwm isel, sy’n llai tebygol o eisiau mynd i ddyled.
  - Dysgwyr rhan-amser, sy’n fwy tebygol o fod yn fenywod ac, felly, yn fwy tebygol o fod yn wrth-risg.
  - Myfyrwyr Meistr integredig, na ddylent orfod ailymgeisio am gymorth.
  - Myfyrwyr sy’n derbyn budd-daliadau.
  - Myfyrwyr ar gyrsiau ôl-raddedig dwy flynedd e.e. cyrsiau deintyddol arbenigol a’r cyrsiau ôl-raddedig Addysg gychwynnol i athrawon newydd.

Materion eraill sy’n codi

- Ni fydd cyfyngu ar gymorth, naill ai trwy gapio niferoedd neu drwy gyfyngu ar gymorth i unigolion dethol, yn creu cymdeithas gyfiawn. Mae unrhyw ymdrech i gyfyngu ar niferoedd yn cael mwy o effaith o lawer ar y rhai o gefndiroedd ehangu mynediad.
- Yng ngoleuni’r penderfyniad i beidio â darparu lefelau cyfwerth o gymorth i fyfyrwyr ôl-raddedig a addysgir, mae’r angen i gael mynediad at gymorth ychwanegol yn hollbwysig. Mae’n hanfodol bod y cyfryngau cymorth hyn yn parhau a bod sefydliadau’n parhau i gyflawni eu dyletswydd o ran ehangu mynediad at addysg.
- Bydd angen ymgyrch gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gynhwysfawr ar deilyngdod astudio rhan-amser er mwyn mynd i’r afael â phryderon posibl dysgwyr ynglŷn â mynd i ddyled.
- Mae’n bosibl y bydd yna gynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau i gyrsiau ôl-raddedig, ac efallai na fydd prifysgolion yn gallu ateb y cynnydd hwn yn y galw.
- Gallai system nad yw’n cael ei rheoleiddio arwain at wahanol ffioedd, gan y gallai sefydliadau AU gynyddu eu ffioedd rhan-amser. Gallai hyn weithredu fel rhwystr i rai myfyrwyr. Byddai lefel uchafswm ffioedd/cymorth ragnodedig yn gweithredu fel amddiffyniad yn erbyn chwyddiant gormodol.
- Dylid cynnwys opsiwn tair blynedd i gynnig mwy o ddewis a mynediad.
- Byddai’n annheg pe bai gwahanol lefelau o gymorth yn cael eu cynnig yn unol â’r cwrs sy’n cael ei astudio.
- Mae’r rhan fwyaf o’r astudio ôl-raddedig yn cael ei draws-gymorthdalu o ffioedd israddedig llawn amser ac mae’r lefel uchaf wedi bod yn sefydlog ers 2012/13. Mae angen ail-gydbwyso hyn er mwyn sicrhau cynaliadwyedd darpariaeth israddedig ac ôl-raddedig.
- Dylai’r system gwmpasu cyrsiau tair blynedd lle mae’r opsiwn cyfwerth ag amser llawn yn para blwyddyn. Mae hwn yn batrwm cyffredin ar draws sefydliadau AU.
- Mae’n gadarnhaol y bydd gan fyfyrwyr yr hyblygrwydd i ddewis a hoffent ddefnyddio’r cymorth i dalu eu ffioedd neu eu costau cynhaliaeth.
- Bydd cyhoeddiad arfaethedig cost ‘basged o nwyddau’ mewn prifysgolion yn bwysig o ran helpu i nodi unrhyw arwyddion cynnar o dueddiadau niweidiol yn datblygu, gan roi sylw arbennig i ffioedd ôl-raddedig.
- Dylai Llywodraeth Cymru fonitro mynediad ar gyfer myfyrwyr tlotach mewn perthynas â’r cynnig hwn.

***Anfanteision neu ganlyniadau anfwriadol ar gyfer grwpiau penodol o fyfyrwyr/ meysydd darpariaeth***

- Myfyrwyr o Gymru ar y cyfan, gan y gall sefydliadau AU eu hallgáu o fwrsarïau os credir bod ganddynt fantais ariannol.
- Myfyrwyr sydd am gamu ymlaen i astudiaeth ôl-raddedig (gan deimlo pwysau i wneud hynny oherwydd yr economi a'r angen am gymwysterau addysg uwch) a fydd yn dewis cyrsiau rhatach. Gallai hyn gael effaith negyddol ar sgiliau ehangach yr economi ac ar iechyd meddwl unigolion, wedi'i sbarduno gan anfodlonrwydd gyrfa.
- Myfyrwyr sy'n ymddieithrio o'u teulu hanner ffordd trwy eu cwrs ac sy'n ei chael hi'n anodd darparu tystiolaeth bod eu hamgylchiadau wedi newid.
- Ôl-raddedigion iau neu hŷn y gall meini prawf profion modd eu rhoi dan anfantais.
- Rhai myfyrwyr o Gymru, os yw mynediad wedi'i gyfyngu i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru.
- Myfyrwyr gofal cymdeithasol.
- Myfyrwyr ar gyrsiau ôl-raddedig tair i bum mlynedd o hyd e.e. cyrsiau deintyddol arbenigol.
- Myfyrwyr rhan-amser ar fersiynau tair blynedd o gyrsiau blwyddyn neu'r rhai y mae'n cymryd mwy na dwy flynedd iddynt gwblhau eu cwrs rhan-amser.
- Myfyrwyr sy'n derbyn budd-daliadau neu'r rhai o gefndiroedd incwm is.
- Myfyrwyr anabl efallai y byddant angen amser ychwanegol i gwblhau eu cymhwyster.

Materion eraill sy'n codi

- Gall y penderfyniad i beidio â chynnig ffioedd atodol cyfwerth ar gyfer pynciau ôl-raddedig a addysgir gael effaith negyddol ar ddarpariaeth cyrsiau STEM ac effaith gysylltiedig ar y gweithlu.
- Nid yw hi'n glir sut bydd myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir sydd am astudio ar ddwyster o lai na 50% yn cael eu heffeithio, ac a fyddant yn gall cael mynediad at gyllid ai peidio. Efallai y bydd gan lawer ohonynt gyfrifoldebau gofalu ac efallai na fyddant mewn sefyllfa i astudio ar ddwyster uwch.
- Mae yna dystiolaeth bod y fframwaith ariannu ar gyfer ôl-raddedigion yn cael effaith negyddol ar symudedd cymdeithasol gan fod y gostyngiad yng nghanran y myfyrwyr ôl-raddedig o gefndiroedd tlotach yn diogelu detholrwydd cymdeithasol yn y proffesiynau sy'n cynnig y cyflogau uchaf yn y DU.
- Efallai nad mesurau amddifadedd ar lefel israddedig yw unig benderfynyn amddifadedd yn ddiweddarach mewn bywyd.
- Nid yw hi'n glir pam mae'r cynigion ar gyfer dwyster astudio yn wahanol ar lefelau israddedig ac ôl-raddedig; dylent fod yr un fath. Gallai'r cynigion ôl-raddedig gael eu mireinio i hyrwyddo trefniadau astudio.
- Dylid ystyried effaith y cynigion hyn ar wahanol grwpiau a dylid cynnal asesiad effaith i nodi'r rhai sydd o dan anfantais.
- Gall capio cymorth ôl-raddedig roi myfyrwyr nad oes ganddynt adnoddau ariannol o dan anfantais.
- Mae angen ystyried materion gwledig. Byddai'n fwy darbodus a gwerthfawr i Gymru pe bai Llywodraeth Cymru'n hyrwyddo cydraddoldeb cymorth ariannol i ddysgwyr o bell, sydd efallai'n byw mewn ardaloedd gwledig, na darparu lwfans teithio cymhleth.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau nad yw'r system newydd yn cael effaith negyddol ar y gweithlu nyrsio yn y dyfodol trwy wneud nyrsio'n gwrs gradd llai apelgar i'w ddilyn ar lefel israddedig neu ôl-raddedig.

***Rheoleiddio'r system ôl-raddedig yng Nghymru***

Sylwadau o blaid rheoleiddio:

- Dylai'r system ariannu ôl-raddedig gael ei rheoleiddio yn yr un modd â'r system israddedig.
- Dylai rheoleiddio gael ei wneud mewn cydweithrediad ag adolygiad cynhwysfawr o gost darpariaeth ôl-raddedig a addysgir i bennu a oes angen mwy o gyllid cyhoeddus ai peidio i sicrhau ansawdd addysg ôl-raddedig yng Nghymru.
- Efallai na fyddai'n fwy costus a chymhleth pe bai'r system reoleiddio ar gyfer astudio ôl-raddedig yn cael ei chreu o un sy'n bodoli ar gyfer y system israddedig. Dylai'r cynllun arfaethedig ar gyfer ôl-raddedigion weithredu yn yr un modd ag ar gyfer israddedigion.

Sylwadau yn erbyn rheoleiddio:

- Croesewir y cynnig i beidio â rheoleiddio yn y cyfnod hwn.
- Byddai'r costau, y fiwrocratiaeth a'r galw ar Lywodraeth Cymru a sefydliadau AU yn gorbwyso'r manteision. Mae angen tystiolaeth hefyd i bennu a yw cymhlethdod system reoleiddio yn gorbwyso'r manteision.
- Mae'r system bresennol yn gweithio'n dda ac nid oes unrhyw dystiolaeth bod angen newid.
- Mae sefydliadau AU Cymru eisoes wedi ymrwymo i gyfle cyfartal. Mae cynlluniau mynediad a ffioedd yn cwmpasu mesurau cydraddoldeb sy'n berthnasol i ôl-raddedigion, felly nid oes angen unrhyw ymyriadau pellach.
- Mae'r hyblygrwydd presennol yn galluogi ymateb hyblyg gan sefydliadau AU i anghenion cyflogwyr.
- Mae angen i sefydliadau AU Cymru weithredu heb fwy o gyfyngiadau ar eu hyblygrwydd a'u hymreolaeth nag unrhyw sefydliadau AU eraill yn y DU ac yn rhyngwladol.
- Mae cymwysterau a llwybrau astudio ôl-raddedig yn amrywiol, ac mae yna gymhlethdod sylweddol yn y ddarpariaeth cyrsiau Lefel 7 ac 8.
- Gallai terfynau uchaf ffioedd ôl-raddedig roi sector Cymru y tu ôl i weddill y DU, a gallai gyfyngu ar dwf a chystadleurwydd.
- Mae twyll yn risg allweddol, er ei fod yn risg isel yn achos darparwyr AU sydd wedi hen ennill eu plwyf, sy'n destun rheoleiddio eang gan CCAUC. Dyma le mae'r rhan fwyaf o ôl-raddedigion yn debygol o astudio.
- Byddai'n well peidio â rheoleiddio'n llawn ar hyn o bryd – yn bennaf i sicrhau amrywiaeth eang o gyrsiau, gan gynnwys y rhai sy'n denu llai o fyfyrwyr. Fodd bynnag, mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn effro i unrhyw gynnydd mewn lefelau ffioedd dysgu, cyhoeddi ystadegau a chadw agwedd hyblyg tuag at reoleiddio, yn enwedig mewn perthynas â ffioedd, os yw'n angenrheidiol i'r dyfodol.

Materion eraill sy'n codi

- Dylai'r holl argymhellion yn ymwneud â darpariaeth ôl-raddedig a addysgir gael eu gweithredu gyda'i gilydd i sicrhau cysondeb ar draws y system ariannu ac i sicrhau bod diogelwch y cohort yn cael ei gynnal.
- Mae angen gweithgor i sicrhau bod system ôl-raddedig wedi'i rheoleiddio'n llawn yn cyflawni dros bob myfyriwr. Dylai hyn gynnwys cynrychiolaeth o lais myfyrwyr, ynghyd â rhanddeiliaid allweddol eraill o bob cwr o'r sector.

- Mae'n ymddangos bod yr awgrym y byddai'n gymhleth a chostus i reoleiddio system ôl-raddedig yn llawn yn gwbl groes i'r cynnig y dylai system ran-amser wedi'i rheoleiddio'n llawn gael ei datblygu erbyn 2021.
- Mae mwy o hyblygrwydd i astudio ar ddwyster is, gyda'r cyfle i gael mynediad at gymorth ariannol, yn hanfodol i sicrhau bod myfyrwyr yn gallu cael mynediad at astudiaeth ôl-raddedig, yn enwedig myfyrwyr sy'n rhieni, myfyrwyr sy'n ofalwyr a myfyrwyr aeddfed.
- Dylai sefydliadau unigol ddarparu cymorth uniongyrchol trwy fwrsarïau ac ysgoloriaethau i helpu'r rhai o gefndiroedd difreintiedig i gyrraedd eu potensial a chyflawni eu dyheadau.
- Gyda chyflwyniad cymorth ariannol statudol i fyfyrwyr ôl-raddedig a addysgir, mae'n hanfodol sicrhau bod sefydliadau'n cael eu dwyn i gyfrif am sut maent yn gwario'u ffioedd dysgu ôl-raddedig, gan gynnwys ehangu mynediad i astudiaeth ôl-raddedig trwy gynlluniau mynediad a ffioedd. Byddai hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i fonitro cynnydd ar draws y sector o ran ehangu mynediad i addysg ôl-raddedig. Bydd hyn yn anodd ei gyflawni os nad yw ffioedd ôl-raddedig wedi'u rheoleiddio, ond byddai rhyw fath o oruchwyliaeth ac atebolrwydd yn absenoldeb rheoleiddio ffioedd o fudd i'r cyhoedd.
- Mae amrywiaeth o gyrsiau nyrsio ôl-gofrestru (h.y. ôl-raddedig) yn cael eu cynnig ar hyn o bryd yng Nghymru e.e. Nyrsio Ardal a Nyrsio Newyddenedigol. Rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn glir nad yw'r cynigion yn rhoi myfyrwyr ôl-raddedig hyn, sy'n cael eu hariannu trwy fwrsari'r GIG ar hyn o bryd, o dan anfantais.
- Dylid ystyried cyfnodau astudio hwy (neu ddwyster is) ar gyfer myfyrwyr anabl.
- Gallai dynodi sefydliadau fod yn ffordd o osgoi chwyddiant ffioedd a rheoleiddio llawn.
- Ar hyn o bryd, mae myfyrwyr ôl-raddedig o dan anfantais o gymharu â myfyrwyr yn Lloegr.
- Mae angen egluro sut byddai myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir yn cael eu hincwm wedi'i asesu.

***Ffyrdd eraill o weithredu ein cynigion ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig a fyddai'n hyrwyddo mynediad cyfartal yn well***

Dewisiadau amgen ar gyfer gweithredu'r cynigion:

- Darparu cymorth ar gyfer cyrsiau dwyster is.
- Cynnwys astudio ar-lein yn y pecyn cymorth.
- Sicrhau bod pob myfyriwr o Gymru'n gallu cael mynediad at fenthyciadau, hyd yn oed os yw wedi treulio amser yn byw dramor.
- Darparu mwy o gymorth ariannol.
- Darparu system fenthyciadau tebyg i'r un sydd ar gael i fyfyrwyr o Loegr yn 2017 wrth weithio ar y cynigion a amlinellir.
- Trin ôl-raddedigion fel myfyrwyr 'annibynnol' wrth asesu eu hincwm, yn hytrach na seilio eu hasesiad ar incwm y teulu.
- Sicrhau bod cymorth yn cwmpasu costau byw ac astudio er mwyn hyrwyddo mynediad cyfartal yn well.
- Caniatáu hyblygrwydd i ddefnyddio cymorth i fyfyrwyr ar gyfer ffioedd neu gynhaliaeth.
- Sicrhau bod myfyrwyr sy'n camu ymlaen o lefel israddedig i lefel ôl-raddedig yn gallu cael mynediad at wybodaeth, cyngor ac arweiniad priodol yn gynnar yn y broses.
- Mabwysiadu dull sy'n addas i bobl o bob oedran.

Materion eraill sy'n codi

- Mae angen i sefydliadau AU gyfathrebu opsiynau cymorth i fyfyrwyr.
- Profion modd yw'r dull tecaf, ond dim ond os yw pob maes cyflogaeth â blaenoriaeth yn derbyn yr un lefel o gymorth. Fodd bynnag, byddai'n rhesymol ei gwneud hi'n ofynnol i ddarparwyr nad oes ganddynt gynlluniau mynediad a ffioedd ymrwymo i hyrwyddo mynediad cyfartal trwy system gyfatebol a sicrhau bod ganddynt statws elusennol.
- Dylai mynediad at astudiaeth ôl-raddedig fod yn seiliedig ar ddyhead a gallu.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

14. Amlinellodd ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Diamond ar 22 Tachwedd system cymorth i fyfyrwyr ddiwygiedig ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig. Mae ystyriaeth o'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cadarnhau'r farn hon. Felly, bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried y posibilrwydd o gyflwyno'r system cymorth ôl-raddedig newydd cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol – mae hyn yn debygol o fod ar gyfer dechrau blwyddyn academaidd 2019/20.

15. Fodd bynnag, gan gydnabod y bydd y newidiadau ôl-raddedig yn cael eu cyflwyno'n ddiweddarach nag ar gyfer myfyrwyr israddedig, byddwn yn cyflwyno system uwch o gymorth ar gyfer 2018/19, cyn belled â bod y rheoliadau angenrheidiol yn cael eu gwneud.

- Byddwn yn paratoi deddfwriaeth i alluogi cynnydd yn y cyfraniad at gostau dilyn cwrs ôl-raddedig. Bydd hyn yn cynnwys benthyciad uwch o £13,000. Bydd y lefel hon o gymorth yn gludadwy a bydd ar gael i fyfyrwyr ble bynnag y byddant yn dewis astudio yn y DU.

- Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu darparu cyllid i sefydliadau Cymru (trwy CCAUC) i ddarparu cymorth ychwanegol i fyfyrwyr ôl-raddedig sy'n dewis astudio yng Nghymru.

- Gall y cymorth uwch gael ei ddefnyddio i dalu ffioedd dysgu neu gostau cynhaliaeth myfyrwyr, a bydd ar gael ar gyfer cyrsiau llawn amser (sy'n para blwyddyn neu ddwy flynedd). Bydd astudio rhan-amser yn cael ei gefnogi hefyd lle gall cyrsiau gael eu cwblhau o fewn cyfnod nad yw'n fwy na dwywaith cymaint â'r cyfnod sydd fel arfer yn ofynnol i gwblhau'r cwrs llawn amser, neu lle nad oes gan gwrs rhan-amser fersiwn llawn amser ond lle gall gael ei gwblhau o fewn tair blynedd academaidd.

16. Yn ogystal, ac yn unol â'r cyhoeddiad yng nghyllideb Llywodraeth y DU, mae Cymru'n bwriadu cyflwyno cynllun benthyciadau Doethuriaeth ôl-raddedig o 2018/19 ymlaen. Bydd myfyrwyr cymwys, sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru, yn gallu cael benthyg hyd at £25,000 fel benthyciad nad yw'n dibynnu ar brawf modd. Fel gyda'r benthyciad Meistr, bydd y cyllid hwn yn cael ei ddarparu'n uniongyrchol i'r myfyriwr fel cyfraniad at gostau, ond mae ar gyfer y rhai sy'n astudio tuag at gymwysterau Doethuriaeth Lefel 8. Disgwylir y bydd ad-daliadau'n amodol ar incwm yn unol â benthyciadau israddedig a Meistr, sef £21,000 ar hyn o bryd. O dan y trefniadau disgwyliedig, bydd ad-daliadau ar gyfer benthyciadau ôl-raddedig yn cael eu gwneud fel un taliad, gan gwmpasu cynhyrchion Meistr a Doethuriaeth.

17. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys amryw o ymholiadau ynglŷn ag a oedd Llywodraeth Cymru'n gallu ymestyn yr ystod o grantiau a dargedir a gynigir i israddedigion a myfyrwyr ôl-

raddedig. Ar hyn o bryd, nid oes gennym yr adnoddau i ymestyn lefel y cymorth y tu hwnt i'r hyn a amlinellir yn ymateb Llywodraeth Cymru. Bydd ein pecyn diwygiedig yn fwy hael o lawer na'r hyn a gynigir yn unrhyw un o wledydd eraill y DU, ond byddwn yn ystyried yn ofalus a yw'n ymarferol ac yn gynaliadwy i gynnig grantiau ychwanegol fel rhan o'r gwaith a gyflawnir gan y Student Stability and Sustainability Group dros y blynyddoedd i ddod.

## Myfyrwyr â phrofiad o fod mewn lleoliad gofal

### Ein Cwestiynau

18. Gofynnwyd y cwestiynau canlynol ynghylch cymorth i fyfyrwyr sydd â phrofiad o fod mewn lleoliad gofal.

| | |
|---|---|
| Cwestiwn 15. | A fydd yna broblemau gweithredu'n deillio o ddarparu cymorth i fyfyrwyr sydd â phrofiad o fod mewn lleoliad gofal? |
| Cwestiwn 16. | Sut allwn ni ddarparu rhagor o gymorth i fyfyrwyr sy'n ofalwyr? |
| Cwestiwn 17. | Oes yna ganlyniadau anfwriadol tebygol o weithredu'r cynigion hyn? |
| Cwestiwn 18. | A fydd gweithredu'r cynigion hyn yn rhoi unrhyw grŵp penodol o dan anfantais? |

### Ymatebion i'r ymgynghoriad

***Materion gweithredu sy'n codi o ganlyniad i ddarparu cymorth i fyfyrwyr sydd â phrofiad o fod mewn lleoliad gofal***

- Croesewir eglurder ynglŷn â phryd y byddai'r cynnig hwn yn cael ei gyflwyno.
- Dylai'r polisi hwn fod yn addas i bobl o bob oedran fel y byddai pobl hŷn sy'n gadael gofal ac sy'n astudio'n rhan-amser yn gymwys i gael cymorth.
- Mae angen gweithio gyda chyrff cynrychioli myfyrwyr, sefydliadau trydydd sector a chyrff cynrychiadol i ddatblygu'r cynigion hyn.
- Mae angen cymorth clir a dargedir os yw dysgwr yn ailgychwyn rhaglen er mwyn dileu'r cylch o roi'r gorau i gwrs ac ailgychwyn cwrs.
- Mae angen i wybodaeth am y cymorth sydd ar gael fod yn glir ac ystyried ofn dyled fel ffactor sy'n effeithio ar lefelau cyfranogiad. Gallai'r trydydd sector helpu i ddosbarthu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad clir.
- Dim ond yn eu blwyddyn gyntaf y dylai myfyrwyr o gefndir gofal orfod darparu tystiolaeth o'u hamgylchiadau, yn hytrach nag yn flynyddol.
- Mae yna risg y bydd y cynigion yn canolbwyntio ar fyfyrwyr sy'n camu ymlaen yn uniongyrchol o'r ysgol neu'r coleg h.y. israddedigion llawn amser. Mae angen gweithdrefnau cadarn i sicrhau bod dysgwyr hŷn hefyd yn derbyn y lefel uchaf o gymorth os ydynt yn gymwys i'w chael.
- Dylai Llywodraeth Cymru a sefydliadau AU weithio gyda'i gilydd i nodi'r rhai sy'n gadael gofal a mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n eu hwynebu; byddai data lefel genedlaethol yn helpu gyda hyn.
- Dylai fod gan bob sefydliad AU dîm o staff i gefnogi'r dysgwyr hyn.
- Dylai fod gan sefydliadau AU gynllun cymorth i flaenoriaethu'r rhai sy'n gadael gofal er mwyn codi eu cyrhaeddiad addysgol a'u galluogi i wneud cyfraniad llawn at y gymdeithas.
- Mae cymorth ymarferol, ochr yn ochr â chyllid, yn arbennig o fuddiol i'r grŵp hwn o ddysgwyr.
- Efallai y bydd materion data ac amrywioldeb yn ei gwneud hi'n anodd adnabod y myfyrwyr hyn. Gall deddfwriaeth diogelu data atal rhannu data rhwng awdurdodau lleol a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Dylai'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr

ddyfeisio gweithdrefn ddilysu amgen o dan amgylchiadau lle mae yna anawsterau o ran cael mynediad at wybodaeth gan awdurdodau lleol.

- Dylai Cyllid Myfyrwyr Cymru ystyried darparu cynghorwyr cymorth arbenigol i nodi a chefnogi'r rhai sy'n gadael gofal.
- Mae angen tryloywder mewn perthynas â chyllid er mwyn osgoi dyblygu rhwng Llywodraeth Cymru, CCAUC a sefydliadau AU.
- Dylid ystyried mater llety y tu allan i'r tymor ysgol.
- Croesewir system sy'n galluogi trosglwyddo credydau; dylai hyn fod yn berthnasol i bob myfyriwr.
- Efallai y bydd angen casglu mwy o ddata trwy HESA i gefnogi'r cynnig hwn.
- Mae angen hyblygrwydd gyda bwrsarïau AU ac adnoddau staff i ymdrin â chynnydd posibl yn nifer y rhai sy'n gadael gofal.
- Mae angen egluro'r pwyntiau canlynol:
    - Y diffiniad o 'brofiad o fod mewn lleoliad gofal'.
    - A yw'r cynigion yn ymestyn i israddedigion. (Os felly, croesewir hyn.)
    - Sut bydd y rhai dros 25 oed yn cael eu trin. Efallai y bydd y myfyrwyr hyn yn ei chael hi'n anodd dangos tystiolaeth eu bod nhw wedi bod mewn gofal.
    - Ystyr 'cychwyniadau lluosog' a 'chymorth a dargedir', fel y cyfeirir atynt yn argymhelliad Adolygiad Diamond.
    - Hyblygrwydd y system a'r cymorth ariannol i fyfyrwyr a darparwyr.
    - A fyddai person ifanc sy'n gadael gofal yn 18 oed yn yr un categori â dysgwr a fabwysiadwyd mewn plentyndod cynnar.
    - Sut, a gyda faint o hyblygrwydd, y bydd statws dysgwr yn cael ei nodi.

***Awgrymiadau ar gyfer cynnig cymorth pellach i fyfyrwyr sy'n ofalwyr***

- Ymestyn y Lwfans Gofalwr i fyfyrwyr neu archwilio'r posibilrwydd o ddarparu grant penodedig i ofalwyr sy'n derbyn Lwfans Gofalwr gan y byddant yn colli hwn os ydynt yn astudio'n llawn amser.
- Ymestyn cymorth presennol ar gyfer myfyrwyr a dargedir, gan gynnwys cynlluniau megis y Grant Oedolion Dibynnol a'r Grant Gofal Plant.
- Creu cynllun newydd a fyddai'n rhagori ar lefel y cymorth a ddarperir gan y Lwfans Gofalwr, i'w ddarparu gan Gyllid Myfyrwyr Cymru ac sydd ar gael ar gyfer AB ac AU.
- Cynyddu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer gofal seibiant.
- Darparu cyngor a chyfleoedd ar gyfer opsiynau dysgu cyfunol a hyblyg, cyrsiau rhan-amser a dwyster is a mynediad lleol at AU.
- Gweithio gydag asiantaethau cymorth y gellid ymddiried ynddynt megis Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, canolfannau Gofalwyr Awdurdodau Lleol, gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth iechyd i godi ymwybyddiaeth a darparu cyngor ac arweiniad.
- Darparu cyllid bwrsari ychwanegol i ofalwyr o bob oedran, yn hytrach na gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn unig.
- Darparu cymorth i fyfyrwyr sydd wedi bod yn ofalwyr o fewn y ddwy flynedd diwethaf.
- Darparu cymorth ychwanegol yn benodol ar gyfer gofynion TG e.e. cyfarpar a chysylltedd band eang.
- Darparu cymorth penodol (h.y. hyfforddiant/ymsefydlu ac ati) i ddarparu'r sgiliau sydd eu hangen i astudio o bell.
- Darparu cymorth sefydliadol i brifysgolion i ddarparu cymorth pwrpasol i ofalwyr.
- Creu tîm Cyllid Myfyrwyr Cymru penodedig ar gyfer myfyrwyr agored i niwed.
- Darparu bwrsarïau ychwanegol Llywodraeth Cymru wedi'u cysylltu â gofal seibiant mewn rhyw ffordd.

- Galluogi mynediad at lefelau uwch o gymorth. Efallai y bydd gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn fwy gwrth-ddyled; gallai gwybod y gallant gael mynediad at becyn llawn o gymorth, os yw ar gael, helpu i dawelu'r ofnau hyn (fel yn achos pob gofalwr).
- Gweithio gyda darparwyr addysgol, sector y blynyddoedd cynnar a sefydliadau cymorth i ofalwyr i ddarparu gwybodaeth (gan gynnwys manylion y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr) a help ymarferol i gael mynediad at ddysgu.
- Darparu cymorth ar gyfer gofal plant e.e. talebau gofal plant, neu gallai sefydliadau AU gynnig gofal plant hygyrch o safon uchel.
- Ehangu'r diffiniad o 'ofalwyr' a diffinio 'gofalwyr ifanc' yn glir.
- Ymestyn cymorth i ofalwyr ifanc yn y lle cyntaf.
- Darparu rhestr glir o dystiolaeth dderbyniol sy'n ofynnol i brofi statws gofalwr y dylid ei nodi adeg eu cais i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr.
- Cynhyrchu ystadegau cadarn mewn perthynas â gofalwyr.
- Darparu'r grant cynhaliaeth uchaf posibl i ofalwyr, beth bynnag fo'u hincwm.
- Trin gofalwyr sy'n oedolion ifanc sy'n byw gyda'u rhieni fel pobl 'annibynnol' yn yr asesiad o'r cymorth tuag at gostau byw. Yn aml, gofalwyr sy'n oedolion ifanc sy'n gyfrifol am arian yr aelwyd, felly mae'r rhagdybiaeth y byddent yn derbyn cymorth gan eu rhieni, boed yn gymorth ariannol neu fath arall o gymorth, yn anghywir.
- Sicrhau bod unrhyw gymorth penodedig ar gael am hyd y cwrs, gyda'r myfyriwr i gadarnhau bob blwyddyn nad yw ei amgylchiadau wedi newid.
- Caniatáu i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ystyried effaith gofalu mewn ffordd sympathetig wrth ystyried ceisiadau myfyrwyr sy'n ofalwyr am gyllid pellach yn seiliedig ar resymau personol. Mae angen asesiadau sensitif ac amserol.
- Cyflwyno trothwyon ariannol is ar gyfer cael mynediad at gymorth.
- Darparu cymorth ariannol ar gyfer astudio ar ddwyster o lai na 25%.
- Caniatáu i fyfyrwyr gwblhau cymwysterau dros gyfnod hwy.

***Unrhyw ganlyniadau anfwriadol o ganlyniad i weithredu'r cynigion hyn***

- Ni ddylai cymhwysedd y rhai sy'n gadael gofal i dderbyn y pecyn cymorth i fyfyrwyr llawn effeithio ar incwm eu teulu na'u cymhwysedd i gael cymorth arall e.e. bwrsarïau sefydliadau AU.
- Efallai y bydd rhai grwpiau difreintiedig yn llwyddo i basio'r meini prawf e.e. ffoaduriaid neu fyfyrwyr sydd wedi ymddieithrio o'u teulu. Efallai y bydd ffoaduriaid yn ei chael hi'n anodd, neu'n amharod, i ddarparu tystiolaeth o'u statws.
- Efallai na fydd myfyrwyr am gael eu hadnabod fel gofalwyr; mae angen parchu hyn. Dylai dysgwyr o'r fath ddewis cael mynediad at eu hawl i dderbyn y grant cymorth cynhaliaeth llawn.
- Gallai cynyddu nifer y rhai sy'n gadael gofal sy'n cael mynediad at AU olygu bod angen i sefydliadau AU gynyddu'r adnoddau ariannol a staff sydd ar gael i gefnogi'r myfyrwyr hyn.

***Grwpiau penodol y gall y cynigion hyn eu rhoi o dan anfantais***

- Myfyrwyr sy'n ymddieithrio o'u teulu neu sy'n dod yn ofalwyr hanner ffordd trwy eu cwrs.
- Grwpiau incwm is.
- Gofalwyr.

### *Materion eraill sy'n codi*

- Ni ddylai myfyrwyr sy'n ofalwyr gael eu rhoi o dan anfantais gan y system cyllid myfyrwyr o gymharu â myfyrwyr nad oes ganddynt gyfrifoldebau gofalu. Gallai fod yna gost ychwanegol, ond mae sicrhau bod gan ofalwyr a'r rhai sydd â phrofiad o'r system ofal fynediad cyfartal at AU yn hollbwysig i ehangu mynediad, hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a gwella'r economi.
- Mae gofalwyr yn wynebu rhwystrau ychwanegol, gan gynnwys rhai ariannol. Maent angen cymorth wedi'i deilwra er mwyn gallu cael mynediad at AU.
- Mae'n siomedig nad oes yna amserlen ar gyfer trafod gydag UCM. Mae'n debygol y bydd hyn yn cael effaith ar ddarpariaeth ddigonol ac amserol cymorth i fyfyrwyr rhan-amser.
- Mae myfyrwyr nyrsio yn hŷn na myfyrwyr eraill ar gyfartaledd ac yn fwy tebygol o lawer o fod â chyfrifoldebau gofalu.
- Mae myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio o'u rhieni yn grŵp agored i niwed hefyd, a dylid sicrhau bod cymorth ar gael iddynt. Mae yna ddiffyg dealltwriaeth o'u hanghenion ar hyn o bryd.
- Nid yw dyddiadau cychwyn lluosog yn ddymunol.
- Byddai grwpiau eraill o ddysgwyr yn elwa ar gychwyniadau lluosog e.e. dysgwyr anabl a'r rhai sydd wedi ymddieithrio o'u teulu.
- Efallai y bydd taliadau misol o fudd i'r rhai sy'n gadael gofal ac yn eu helpu i gyllidebu.
- Mae gofalwyr yn grŵp agored i niwed sydd ag ymrwymiadau eraill y tu allan i astudio, gyda chostau uwch ac incwm is o bosibl o ganlyniad i'r rhain.
- Ni ddylai lwfansau gofalwyr gael eu cyfrif fel incwm at ddiben cyfrifo trothwyon ad-dalu.
- Byddai'n ddefnyddiol egluro y gall myfyrwyr annibynnol sy'n cyfrannu at dreuliau aelwyd fod yn gymwys i gael cymorth ar y gyfradd byw oddi cartref.
- Er y croesewir cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru o'r heriau sy'n wynebu gofalwyr, rhaid i unrhyw gynigion gael eu datblygu trwy ymgysylltu â gofalwyr a grwpiau gofalwyr.
- Mae'r dulliau o nodi gofalwyr yn dod yn fwyfwy cyffredin a dibynadwy.
- Nid yw pob gofalwr rhwng 18 a 21 oed.
- Efallai bod gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn gorfod talu costau teithio sylweddol o gymharu â myfyrwyr heb gyfrifoldebau gofalu.
- Efallai y bydd teuluoedd gofalwyr sy'n oedolion ifanc yn ei chael hi'n fwy anodd cwblhau asesiad o incwm a darparu tystiolaeth ategol o'u statws.
- Mae'n hanfodol ystyried system bwrsari cyfrwng Cymraeg i gymell pobl i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae'n bwysig peidio â rhannu'r rhai sy'n gadael gofal i is-gategorïau. Ni fyddai hyn yn gwerthfawrogi effaith gorchymyn gofal ar unigolion.
- Mae materion yn ymwneud â myfyrwyr rhan-amser a'r hawl i gael budd-daliadau yn arbennig o berthnasol i ofalwyr.
- Ni fydd y cynigion hyn yn rhoi unrhyw un o dan anfantais, cyn belled â bod cymorth ar gael i grwpiau penodol a bod mecanweithiau cymorth ar waith mewn sefydliadau.
- Dylai asesiad effaith a'r gwaith o werthuso'r system newydd nodi a yw'r cynigion yn rhoi unrhyw grwpiau o dan anfantais.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

18. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r cynnig y dylai'r rhai sy'n gadael gofal dderbyn y lefel uchaf o gymorth cynhaliaeth. Yn amodol ar wneud y rheoliadau perthnasol, ein bwriad yw y bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y newidiadau ehangach i gymorth i fyfyrwyr a ddaw i rym o 2018/19 ymlaen.

19. Nododd sawl ymatebydd eu bod yn cefnogi'r bwriad i ymestyn y lefel lawn o gymorth cynhaliaeth i grwpiau eraill, yn enwedig myfyrwyr â chyfrifoldebau gofalu. Rydym yn cydnabod bod gofalwyr yn wynebu pob math o rwystrau, yn ariannol ac yn anariannol, wrth geisio cael mynediad i addysg uwch ac aros mewn addysg uwch. Mewn egwyddor, rydym yn cefnogi'r cynnig i ddarparu cymorth cynhaliaeth ychwanegol i ofalwyr. Fodd bynnag, mae yna amryw o faterion ymarferol y bydd angen eu hystyried cyn rhoi'r cynnig hwn ar waith. Felly, byddwn yn ceisio mynd i'r afael â'r rhain gyda'r nod o gyflwyno pecyn uwch o gymorth i fyfyrwyr sy'n ofalwyr o 2019/20 ymlaen. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol hefyd, gan gynnwys sefydliadau gofalwyr, UCM a sefydliadau AU yng Nghymru i ddatblygu strategaethau i ddarparu cynhorthwy pellach i'r myfyrwyr hyn.

## Astudiaeth drawsffiniol

### Ein Cwestiynau

20. Gofynnwyd y cwestiynau canlynol ynghylch ein cynllun peilot arfaethedig ar ymestyn y pecyn cymorth i fyfyrwyr y tu hwnt i'r DU.

| | |
|---|---|
| Cwestiwn 19. | Beth yw'r ffordd orau o weithredu a gweinyddu'r cynllun peilot arfaethedig ar ymestyn y pecyn cymorth i fyfyrwyr y tu hwnt i'r DU? |
| Cwestiwn 20. | A ddylai'r cynllun peilot ystyried unrhyw faterion penodol? |
| Cwestiwn 21. | Sut fyddech chi'n rheoli costau a galw am unrhyw gynllun yn y dyfodol sy'n ymestyn cymorth y tu hwnt i unrhyw gynllun peilot? |

### Ymatebion i'r ymgynghoriad

***Dulliau arfaethedig o weithredu a gweinyddu'r cynllun peilot arfaethedig***

- Dylai cynlluniau presennol ar gyfer cefnogi astudio dramor gael eu hadolygu, gan gynnwys trefniadau bwrsari sydd ar gael mewn sefydliadau AU tramor.
- Dylai cyrff dilysu gwledydd gael eu cydnabod, os yn bosibl.
- Gall cyrff rhanbarthol, megis yr European University Association, fod yn ddefnyddiol o ran cefnogi gweinyddu'r cynllun.
- Gallai'r cynllun peilot ganolbwyntio ar un brifysgol, rhanbarth neu grŵp o wledydd yn y lle cyntaf.
- Gallai'r cynllun peilot archwilio sut gellid annog sefydliadau AU i ddatblygu cynlluniau cyfnewid.
- Gellid creu senarios ffug, gan ddefnyddio myfyrwyr presennol, trwy grwpiau ffocws.
- Dylid ystyried pob math o astudio e.e. israddedig, ôl-raddedig, llawn amser a rhan-amser.
- Dylai'r cynllun peilot ystyried darpariaeth gan sefydliadau AU y DU y tu allan i'r DU a sefydliadau AU tramor.
- Gallai'r cynllun peilot fabwysiadu dull sy'n debyg i'r cynllun peilot cludadwyedd sydd ar waith yn yr Alban.
- Gall canolbwyntio ar helpu myfyrwyr i astudio neu weithio dramor fel rhan o gwrs y DU helpu i reoli'r costau.
- Bydd angen i'r cynllun hwn fod y tu allan i'r trefniadau safonol ar gyfer prosesu cymorth i fyfyrwyr.
- Mae angen gwerthusiad cychwynnol o'r galw am y cymorth hwn ymhlith myfyrwyr, ynghyd â dadansoddiad o'r costau a'r manteision i Lywodraeth Cymru.
- Dylai'r gofynion ansawdd ar gyfer sefydliadau tramor fod yr un fath ag ar gyfer sefydliadau'r DU.
- Dylid ystyried cymorth ychwanegol ar gyfer cynlluniau sy'n cefnogi astudio dramor am flwyddyn, yn enwedig yng ngoleuni'r posibilrwydd o golli cyllid Erasmus pan fydd y DU yn gadael yr UE.
- Bydd gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i fyfyrwyr trwy Gyllid Myfyrwyr Cymru yn hollbwysig.
- Efallai y bydd hi'n anodd gwneud taliadau i sefydliadau AU tramor, felly efallai y bydd angen i'r cyllid gael ei dalu i'r myfyrwyr trwy gyfrif banc Prydeinig.

- Dylai'r cynllun peilot geisio amddiffyn arferion proffesiynol presennol sy'n cyfrannu at ddatblygu sgiliau graddedigion e.e. trwy astudio dramor.
- Gallai cwmpas y cynllun peilot gael ei fframio i ategu polisi diwydiannol y DU a bargeinion masnach Llywodraeth y DU gyda llywodraethau o'r tu allan i'r UE.

***Unrhyw faterion penodol y dylai'r cynllun peilot eu hystyried***

- Dysgwyr o bell a dysgwyr rhan-amser, yn ogystal â myfyrwyr traddodiadol sy'n astudio'n llawn amser.
- Y ffordd orau o adennill benthyciadau gan fyfyrwyr sy'n astudio dramor ac yn aros yno. Mae angen modelu'r tebygolrwydd o adennill y cyllid hwn.
- Sut i osgoi gormod o weinyddu a chymhlethdod.
- Hygyrchedd i fyfyrwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is.
- Amrywiadau mewn costau byw.
- Yr iaith ryngweithio/addysgu.
- Sut i gadarnhau presenoldeb myfyriwr mewn sefydliad AU tramor.
- Sut i benderfynu a yw sefydliad tramor yn 'gyfreithlon'.

***Rheoli costau a'r galw am unrhyw gynllun sy'n ymestyn cymorth y tu hwnt i unrhyw gynllun peilot***

- Gellid cynnig cymorth i astudio rhan o gwrs dramor neu ar gyfer blwyddyn mewn diwydiant.
- Os yw'r cynllun yn seiliedig ar flynyddoedd a dreulir dramor/graddau ar y cyd/blwyddyn mewn diwydiant, gallai'r galw gael ei reoli trwy gwotâu i sefydliadau AU.
- Hyd nes i fanylion y cynllun a lefel y galw ddod i'r amlwg, mae'n anodd ystyried sut gallai costau gael eu rheoli.

***Materion eraill sy'n codi***

- Croesewir y dyhead i gefnogi astudio dramor.
- Ni all system ysgoloriaeth fod yn seiliedig ar gyrhaeddiad academaidd yn unig. Mae symudedd cymdeithasol yng Nghymru a ledled y DU yn isel iawn; dylai cefndir economaidd-gymdeithasol fod yn ffactor hollbwysig mewn unrhyw raglen ysgoloriaeth bosibl.
- Efallai y gellir dysgu gwersi o'r model benthyciadau Americanaidd.
- Mae ansicrwydd ynghylch a fyddai'n ddymunol yn weinyddol i gynnal y cynllun peilot o ystyried y gorbenion sy'n rhan o'r broses ymgeisio.
- Rhaid rhoi blaenoriaeth i gludadwyedd yn y DU ac o fewn yr UE. Dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio ar helpu myfyrwyr i astudio yn y DU am y tro. Gellid ystyried cefnogi astudio y tu allan i'r DU ar ôl i ddyfodol yr UE gael ei benderfynu.
- Dylai'r cynllun peilot gael ei ohirio tan 2019/20; fel arall, efallai y bydd yn gwyro amser ac adnoddau o agweddau pwysicach ar y trefniadau cymorth i fyfyrwyr.
- Gellir rhyngwladoli profiadau myfyrwyr o Gymru yn well trwy ddulliau eraill e.e. trwy hwyluso blwyddyn yn astudio dramor trwy gysylltiadau rhwng sefydliadau AU a sefydliadau tramor.
- Ni fydd talu i fyfyrwyr astudio eu cwrs cyfan dramor o fudd mawr i Gymru a threthdalwyr Cymru.

- Dylai strategaethau gael eu datblygu ar gyfer gwahanol senarios fel y gellir gweithredu'n gyflym pan fydd cysylltiadau rhwng Cymru, y DU, yr UE a gwledydd eraill yn y dyfodol yn dod yn fwy clir.
- Mae rhai myfyrwyr eisoes yn manteisio ar y cyfle i astudio dramor e.e. trwy gynllun Erasmus neu drwy leoliadau gwaith a hunanariennir.
- Efallai y bydd arbenigedd yn cael ei golli o ganlyniad i fyfyrwyr o Gymru yn dewis peidio â dychwelyd i Gymru neu i'r DU.
- Mae angen ariannu cyrsiau yn y DU sy'n cynnwys cyfnodau o astudio a lleoliadau gwaith dramor.
- Mae angen cydbwysedd o ran sicrhau bod cymaint o fyfyrwyr â phosibl yn cael cynnig y cyfle hwn, ond dylai'r cyllid ar gyfer pob myfyriwr fod yn ddigon i dalu'r holl gostau sy'n gysylltiedig ag astudio.
- Dylai'r cynllun gael ei weinyddu yng Nghymru, gyda sefydliadau o'r tu hwnt i'r DU yn tanysgrifio iddo.
- Mae angen i gymhwysedd ar gyfer dynodiad cwrs fel rhan o'r cynllun fodloni'r un mesurau hygyrchedd â'r rhai sy'n ofynnol gan sefydliadau AU Cymru.
- Mae cludadwyedd cymorth i fyfyrwyr yn bwysig, ond yr egwyddor y dylai sector AU Cymru barhau i fod yn gynaliadwy sy'n cael blaenoriaeth.
- Rhagwelir y byddai'r gwaith o ymestyn y cynllun peilot yn cael ei gyfyngu er mwyn galluogi gwerthuso a monitro.
- Un ffactor yn y broses hon yw'r angen i brifysgolion Cymru allu denu'r myfyrwyr gorau a mwyaf disglair o bob cwr o'r DU ac yn rhyngwladol. Yn ogystal, mae Cymru angen cyfleusterau ymchwil o safon uchel er mwyn denu'r doniau gorau, ac mae hyn yn hynod bwysig yn y sector gofal iechyd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

21. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cadarnhau bod angen rhoi ystyriaeth ofalus i lefel y cymhlethdod sy'n gysylltiedig ag ymestyn cymorth i fyfyrwyr sy'n dewis astudio yn yr UE (yn enwedig yng ngoleuni canlyniad refferendwm yr UE) a'r goblygiadau ariannol a gweinyddol posibl o ganlyniad i weithredu cynllun o'r fath. Mae hyn yn cynnwys pennu lefel y galw am gymorth o'r fath ymhlith dysgwyr.

22. Bydd Llywodraeth Cymru'n ymchwilio a fyddai'n bosibl gweithredu cynllun peilot mewn pryd ar gyfer dechrau blwyddyn academaidd 2018/19. Bydd angen i hyn archwilio pa mor ymarferol fyddai ymestyn y pecyn cymorth i fyfyrwyr y tu hwnt i'r DU a'r UE. Er mwyn datblygu hyn, byddwn yn ffurfio gweithgor tymor byr i ddyfeisio cynllun bach ac yn ehangu'r cynllun hwn os bydd y canfyddiadau o'r cynllun peilot yn rhai cadarnhaol.

## Cymwysterau cyfwerth neu is

### Ein Cwestiynau

23. Gofynnwyd y cwestiynau canlynol ynghylch cymwysterau cyfwerth neu is (ELQ).

| | |
|---|---|
| Cwestiwn 22. | Ai'r meysydd pwnc uchod yw'r rhai pwysicaf yng nghyd-destun cymwysterau cyfwerth neu is (ELQ)? |
| Cwestiwn 23. | Oes yna gyrsiau neu feysydd pwnc eraill y dylai Llywodraeth Cymru ystyried eu cynnwys? Os felly, pam? |

### Ymatebion i'r ymgynghoriad

***Ychwanegiadau arfaethedig i'r rhestr o gyrsiau eithriedig***

- Cyrsiau deintyddol.
- Graddau cyfun e.e. lle mae 50% yn bwnc STEM.
- Hyfforddiant arweinyddiaeth a rheolaeth.
- Cyrsiau yn ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol (gan adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu ymarferwyr).
- Ieithoedd ac ieithoedd tramor modern (sydd eu hangen er mwyn ehangu masnach ar ôl i'r DU adael yr UE).
- Gofal/gwaith cymdeithasol (mewn ymateb i brinder gweithwyr cymdeithasol).
- Pynciau mewn cyfryngau digidol, gwyddoniaeth data a thechnolegau dylunio (i gefnogi twf swyddi gwerth uchel yn yr economi technoleg ddigidol).
- Chwaraeon, ymarfer corff a hamdden a thwristiaeth (i gefnogi twristiaeth ac iechyd a lles fel amcanion allweddol Llywodraeth Cymru).
- Cymwysterau proffesiynol a galwedigaethol mewn meysydd nad oes llawer o bobl yn dilyn cyrsiau ynddynt.
- Cymwysterau Cymraeg i Oedolion.

***Eithriadau arfaethedig o ofynion y cymhwyster lefel mynediad ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr***

- Grwpiau agored i niwed, megis gofalwyr, y rhai sy'n gadael gofal a myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio o'u teulu.
- Myfyrwyr sy'n ailhyfforddi o ganlyniad i ddileu swydd neu sy'n wynebu amgylchiadau eithriadol eraill.
- Y rhai sy'n astudio'n llawn amser ar lefel uwch ac sy'n cyfrannu sgiliau lefel uwch sy'n bwysig yn strategol.

***Materion eraill sy'n codi***

- Ni ddylai unrhyw grŵp o fyfyrwyr gael telerau ac amodau gwell na myfyrwyr eraill wrth gael mynediad at addysg. Dylai pob myfyriwr allu cael mynediad cyfartal at addysg ac, yn ôl yr angen, dylid gwneud addasiadau rhesymol i gefnogi myfyrwyr sydd fel arfer yn wynebu rhwystrau i gyfranogi.
- Dylai anghenion sgiliau y rhai yn y sector cyhoeddus yng Nghymru gael eu mapio a'u hystyried ar gyfer eithriad o'r cymhwyster lefel mynediad.

- Mae'r data diweddaraf yn dangos bod ymrestriadau rhan-amser ledled y DU wedi parhau i ostwng. Mae astudiaethau blaenorol wedi dangos y gallai dileu'r cyfyngiad ar y cymhwyster lefel mynediad gael effaith gadarnhaol ar hyn.
- Mae'r rhestr o bynciau eithriedig yn cyfyngu ar ddatblygiad sgiliau a gwybodaeth myfyrwyr. Mae'n ymddangos ei bod yn dibrisio cyfraniadau myfyrwyr y celfyddydau a gwyddorau cymdeithasol at y sector creadigol.
- Dylai cydraddoldeb ac amrywiaeth gael eu hystyried er mwyn amrywio diwydiannau.
- Mae angen adlewyrchu'r cynnydd mewn dysgu gydol oes.
- Mae'r wybodaeth am gynllunio'r gweithlu yn anghywir, felly nid oes modd dibynnu arni i bennu'r rhestr o bynciau yn gywir.
- Mae myfyrwyr ail radd yn gwneud cyfraniad sylweddol at gyfanswm y myfyrwyr deintyddol a'r gweithlu deintyddol; dylent fod yn gymwys i gael yr un lefel o gymorth i fyfyrwyr â myfyrwyr gradd gyntaf.
- Nid yw methodoleg ariannu addysgu CCAUC yn ystyried a yw myfyriwr yn astudio cymhwyster lefel mynediad wrth bennu a ddylai dderbyn cyllid.
- Dylai'r rhestr gael ei hadolygu a dylid ychwanegu ati yn ôl yr angen.
- Dylid ystyried sectorau sy'n tyfu e.e. y diwydiannau creadigol ac ieithoedd.
- Dylai'r rhestr ystyried sectorau economaidd sy'n cael blaenoriaeth mewn rhanbarth.
- Mae angen gwneud penderfyniadau amserol ynghylch mynediad ar gyfer 2018/19.
- Byddai'n ddefnyddiol i fyfyrwyr pe bai'r amserlenni ymgeisio ar gyfer israddedigion ac ôl-raddedigion yn cael eu halinio.
- Dylid rhoi cymorth ychwanegol i ddiwallu anghenion grwpiau penodol.
- Dylai cynlluniau mynediad a ffioedd sefydliadau adlewyrchu unrhyw newidiadau.
- Mae angen egluro ai dim ond graddau anrhydedd sengl a gefnogir.
- Dylai'r rhestr gael ei hystyried yng ngoleuni sectorau a sgiliau blaenoriaeth o fewn Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau Partneriaethau Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol.
- Dylai'r rhestr gynnwys pynciau a nodwyd fel pynciau â blaenoriaeth yn *Symud Cymru Ymlaen*.
- Dylai Llywodraeth Cymru weithio tuag at godi cyfyngiadau cymhwyster lefel mynediad yn gyffredinol, er bod angen profi cost ac ymarferoldeb gwneud hyn.
- Mae angen sicrwydd y byddai gan ôl-raddedigion sy'n hyfforddi fel gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yr hawl i gael cymorth ôl-raddedig.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

24. Ar y cyfan, nid yw myfyrwyr sydd wedi ennill gradd Anrhydedd, neu gyfwerth, yn y DU yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr. Mae yna rai cyrsiau sy'n eithriad i'r rheol hon. Mae'r rhain yn cynnwys rhai cyrsiau ôl-raddedig megis y Dystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) a rhai pynciau israddedig mwy penodol lle mae gradd Anrhydedd yn un o'r gofynion mynediad, er enghraifft, cyrsiau mynediad meddygol a deintyddol. Mae cymorth cyfyngedig wedi bod ar gael ar gyfer y cyrsiau hyn o dan rai amgylchiadau ers tipyn.

25. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'n hymgynghoriad blaenorol ar y posibilrwydd o ymestyn cymorth i fyfyrwyr ar amrywiaeth o gyrsiau[2], o 2017/18 ymlaen, bydd pecyn cymorth ar gael i fyfyrwyr cymwys sy'n dilyn cyrsiau gradd Anrhydedd rhan-amser yn y canlynol:

- Peirianneg, Technoleg a Chyfrifiadureg;

[2] Cymorth ar gyfer astudiaethau ôl-radd a graddau peirianneg, technoleg neu gyfrifiadureg rhan-amser (2016) (https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/cymorth-ar-gyfer-astudiaethau-ol-radd-graddau-peirianneg-technoleg-neu-gyfrifiadureg)

- Pynciau perthynol i Feddygaeth;
- Gwyddorau Biolegol
- Gwasanaethau Milfeddygol, Amaethyddiaeth a phynciau cysylltiedig;
- Gwyddorau Corfforol;
- Gwyddorau Mathemategol;
- Cymraeg.

26. Yn seiliedig ar ymatebion i'n hymgynghoriad diweddaraf, credwn mai'r peth mwyaf priodol i'w wneud fyddai parhau i adolygu'r rhestr bresennol o eithriadau. Yn arbennig, byddwn yn awyddus i ystyried sut gellir defnyddio neu ymestyn yr eithriadau hyn i ddatblygu'r fframwaith Prentisiaeth uwch.

## Sylwadau eraill

27. Gofynnwyd y cwestiynau canlynol.

| | |
|---|---|
| Cwestiwn 24. | Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar unrhyw agwedd arall ar gynigion y ddogfen hon? |
| Cwestiwn 25. | Rydym wedi gofyn amryw o gwestiynau penodol. Os allwch chi feddwl am unrhyw faterion perthnasol eraill nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, nodwch nhw fan hyn. |

### Ymatebion i'r ymgynghoriad

28. Daeth pob math o themâu i'r amlwg yn yr ymatebion. Mae'r rhain wedi'u nodi isod.

***Manylion y pecyn cymorth i fyfyrwyr***

- Croesewir y ffaith y bydd ffioedd rhan-amser yn cael eu cadw ar lefel gymedrol a bod y cynigion yn cymell astudio rhan-amser.
- Mae angen egluro sut gellir defnyddio'r tapr ar gyfer incwm aelwyd (hyd at £59,200).
- Dylai'r 'llawr' ar gyfer y tapr gael ei osod ar £20,000.
- Dylai fod o leiaf chwe cham rhwng y llawr a'r 'nenfwd', sef £59,200.
- Dylai fod yna berthynas linol yn lefel y cymorth sydd ar gael yn y camau tapr.
- Dylai cymhwysedd myfyrwyr gael ei asesu cyn iddynt ddechrau astudio a'i ailasesu bob blwyddyn astudio o hynny ymlaen er mwyn canfod unrhyw newidiadau i incwm aelwyd.
- Byddai mwy o gydraddoldeb o ran cymorth ar gyfer astudio rhan-amser wedi'i groesawu. Er enghraifft, bydd y grant cynhaliaeth llawn ond ar gael i fyfyrwyr ag incwm o hyd at £25,000 y flwyddyn. Bydd hi'n anodd annog astudio rhan-amser ar ddwyster o lai na 25% heb gyllid a diffiniad clir o'r hyn sydd wedi'i gynnwys.
- Nid oes unrhyw wybodaeth fanwl am y rhagdybiaethau cost a modelu sy'n sail i'r cynigion wedi'i chyhoeddi, ond mae cynigion Llywodraeth Cymru'n ymddangos yn fwy gofalus o lawer nag amcangyfrifon Adolygiad Diamond.
- Mae angen eglurder o ran sut bydd myfyrwyr penodol yn cael eu trin:
    - Myfyrwyr sy'n derbyn lle ar gyfer 2017/18 ond sy'n dewis gohirio mynediad am flwyddyn.
    - Myfyrwyr sy'n trosglwyddo i sefydliad AU, a gofnodir fel eu bod 'wedi tynnu'n ôl', ac sy'n cael eu nodi fel myfyrwyr newydd at ddibenion cymorth.

***Gweithredu***

- Dylai argymhellion Adolygiad Diamond gael eu derbyn yn eu cyfanrwydd. Maent yn cynnig sylfaen gynaliadwy i sefydliadau AU yn y tymor canolig.
- Mae angen map clir o bwy sy'n gwneud beth.
- Mae'n bwysig bod y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn gallu diwallu anghenion Cymru.
- Croesewir derbyniad Llywodraeth Cymru bod y costau darparu'n amrywio.
- Gwerthfawrogir y ffaith bod amseru'r gweithredu yn dibynnu ar lifau cohort sy'n pennu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer gofynion arian parod a dyrannu.
- Mae angen i Lywodraeth Cymru barhau i adolygu lefelau ffioedd. Mae angen mwy o gymorth i fyfyrwyr i ariannu ffioedd uwch yn Lloegr.

- Bydd angen proses gadarn a thryloyw ar gyfer cydweithredu er mwyn rhoi'r cynigion hyn ar waith.
- O ystyried y ffaith y bydd hi'n cymryd blynyddoedd lawer i weithredu argymhellion Diamond yn llawn, mae'n bwysig sicrhau bod y gweithredu ar y trywydd iawn a bod yr holl randdeiliaid yn hyderus nad yw'r bwriadau da yn ymateb Llywodraeth Cymru yn cael eu herydu dros amser a bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio at y dibenion bwriedig.
- Mae'r cynigion yn ceisio arbed costau heb ystyried pwysigrwydd myfyrwyr i ddyfodol Cymru.
- Ni allai teulu â thri o blant fforddio i bob un ohonynt astudio y tu allan i Gymru.
- Mae angen i ganlyniadau penderfyniad y DU i adael yr UE ar gyfer argymhellion perthnasol Adolygiad Diamond ac ar gyfer ymchwil ac arloesedd yn fwy eang yng Nghymru gael eu monitro, eu modelu a'u lliniaru'n ofalus.
- Mae'r dystiolaeth bod pecyn cymorth i fyfyrwyr cludadwy yn well i Gymru na phecyn nad yw'n gludadwy yn amheus. Dylai holl gyllideb Llywodraeth Cymru gael ei gwario yng Nghymru.
- Mae'r bwriad i gasglu data ar gost 'basged o nwyddau' mewn sefydliadau AU a chyhoeddi costau cudd cyrsiau ar draws pob maes pwnc yn ddatblygiad cadarnhaol.
- Byddai model y Student Awards Agency for Scotland wedi bod yn fodel gwell i'w gopïo na Student Finance England.

***Effaith ar fyfyrwyr***

- Bydd amseru arfaethedig y newidiadau'n golygu cyfnod rhybudd byr yn unig i fyfyrwyr a ddechreuodd eu cyrsiau Safon Uwch yn 2016.
- Efallai y bydd myfyrwyr a benderfynodd yn 2016/17 yr hoffent gael mynediad at AU yn cael eu rhoi o dan anfantais ac efallai y byddent wedi dewis gwahanol lwybrau gyrfa fel arall e.e. prentisiaethau.
- Dylai'r gweithredu ael ei ohirio tan 2019 i sicrhau bod myfyrwyr sy'n gwneud cais eleni i astudio yn 2018 yn gwybod beth fydd eu sefyllfa ariannol.
- Mae angen adnoddau a chyfathrebu clir a chryno gyda myfyrwyr ar y newidiadau. Byddai'n ddefnyddiol pe gallai cynghorwyr ariannol myfyrwyr mewn sefydliadau AU helpu gyda'r broses gyfathrebu hon.
- Efallai y bydd myfyrwyr o gefndiroedd incwm isel yn cael eu rhoi o dan anfantais gan gostau ymlaen llaw.
- Mae ôl-raddedigion yn fwy tebygol o fod yn hŷn a gallu rheoli eu harian yn well, felly ni fyddai'r cynigion yn eu helpu nhw.
- Dylai myfyrwyr ddarparu tystiolaeth eu bod nhw wedi bod yn byw yng Nghymru ers tair blynedd cyn dechrau eu cwrs.
- Mae sicrhau bod cymorth ond ar gael i fyfyrwyr 'sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru' yn allgau myfyrwyr o Gymru sydd wedi bod yn byw y tu allan i Gymru am gyfnod cyn gwneud cais am gymorth o'r fath.
- Mae oedolion ifanc, sy'n tueddu i fod yn llai galluog yn ariannol, yn wynebu'r her o orfod talu mwy o gostau eu haddysg, a gallu cael benthyg symiau mawr o arian, ac angen gwneud mwy i gynllunio i'r dyfodol.
- Bydd cyfathrebu negeseuon sylfaenol am arian yn eang mewn ffordd strwythuredig yn galluogi oedolion ifanc i ddeall yr amgylchedd llawn her sy'n eu hwynebu.
- Mae newidiadau i gyllid myfyrwyr yng Nghymru o 2018 ymlaen yn gyfle i archwilio ffyrdd o gynnig cymorth strwythuredig a dargedir i oedolion ifanc sy'n cael eu heffeithio a chyflwyno fframweithiau o ymarfer effeithiol i ymarferwyr gwasanaethau i fyfyrwyr sy'n gallu eu cefnogi mewn perthynas â rheoli arian o ddydd i ddydd,

mynediad synhwyrol i gredyd y tu hwnt i orddrafftiau ac yswiriant cynilion a diogelwch digonol.
- Mae yna gyfle i weithio gyda'r sector bancio i archwilio sut gall dargedu cyfathrebu a chymorth at fyfyrwyr ledled Cymru sydd efallai'n cael anawsterau ariannol, boed hynny yn ystod eu hastudiaethau ac ar ôl iddynt raddio a chael mynediad at y farchnad lafur. Mae'r cyfryngau print, darlledu a chymdeithasol yn gallu gwneud cyfraniad pwysig hefyd o ran targedu cymorth cydgysylltiedig a deniadol yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Os yn bosibl, dylai oedolion ifanc fod yn rhan o'r gwaith o gychwyn a dylunio ymyriadau, megis trwy gymorth gan gymheiriaid a'r defnydd o dechnoleg ddigidol.
- Ni ddylai gwelliannau i AU yng Nghymru atal pobl rhag cael mynediad at addysg ar gyfer yr yrfa o'u dewis. Gall pryderon ynglŷn â dyled rwystro pobl rhag cychwyn graddau, yn enwedig graddau hwy (e.e. mae cyrsiau pensaernïaeth yn para pum mlynedd). Dylai Llywodraeth Cymru fonitro'r defnydd o gyrsiau unigol ac adolygu'r polisi benthyciadau fel sy'n briodol.
- Mae angen egluro pryd mae myfyrwyr yn trosglwyddo o'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg i gyllid AU.
- Mae angen gwella'r wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad a gynigir gan Gyllid Myfyrwyr Cymru.
- Gallai'r opsiwn i ganslo rhan o fenthyciad annog graddedigion deintyddol i aros yng Nghymru.

### *Effaith ar sefydliadau AU*

- Mae'r cynigion presennol yn tanseilio dulliau ariannu a chynaliadwyedd sefydliadau AU Cymru, ac yn cefnogi myfyrwyr o Gymru i astudio y tu allan i Gymru. Gallai hyn gael ei liniaru trwy ddarparu benthyciad i'r myfyrwyr hyn yn unig.
- Mae angen bod yn glir ynglŷn â pha lefel o gyllid fydd ar gael i sefydliadau AU. Mae angen i Lywodraeth Cymru barhau i adolygu ffioedd ac mae angen mwy o gyllid cymorth i fyfyrwyr i dalu ffioedd Lloegr, sydd wedi codi.
- Croesewir y bwriad i ad-drefnu cynhorthwy ariannol ar gynhaliaeth. Fodd bynnag, efallai y bydd y gofyniad i ddarparu cost 'basged o nwyddau' yn flynyddol yn arwain at ddarparwyr AU yn canolbwyntio eu hadnoddau ar farchnata 'basged ddeniadol' yn hytrach na chanolbwyntio ar ansawdd eu darpariaeth AU.
- Dylai sefydliadau AU Cymru allu codi eu ffioedd yn unol â sefydliadau Lloegr er mwyn osgoi bwlch cyllido.

### *Meysydd darpariaeth penodol a mathau o ddarparwr*

- Croesewir derbyniad Llywodraeth Cymru o gynigion Adolygiad Diamond ynghylch ariannu addysg alwedigaethol a thechnegol uwch.
- O ran addysg alwedigaethol a thechnegol uwch, bydd yna oblygiadau trawsffiniol os bydd y trothwyon dyfarnu graddau yn newid. Croesewir y buddsoddiad arfaethedig o £1 miliwn. Croesewir cadarnhad o rôl CCAUC mewn perthynas â'r argymhellion hyn.
- Dylai Prentisiaethau Lefel Uwch gael eu cefnogi mewn ffordd debyg. Mae angen sicrhau cydraddoldeb cyllid os yw Llywodraeth Cymru am gyrraedd ei tharged o 100,000 o brentisiaethau ar gyfer pobl o bob oedran.
- Mae angen cydnabod amrywiaeth dysgwyr AU, e.e. AU mewn AB. Ni ddylai dysgwyr o'r fath fod o dan anfantais o gymharu â'r rhai sy'n dilyn cyrsiau israddedig llawn amser mwy traddodiadol.

- Dylai Llywodraeth Cymru ail-fuddsoddi cyfran o unrhyw arbedion sy'n codi o newidiadau i gymorth i fyfyrwyr mewn AB, yn enwedig o ran datblygu sgiliau lefel uwch.
- Dylid ystyried cynnig cymorth penodol i fyfyrwyr sy'n astudio pynciau blaenoriaeth uchel yng Nghymru, gan fynd i'r afael â blaenoriaethau polisi cyhoeddus ar gyfer y farchnad lafur.
- Mae yna gefnogaeth ar gyfer ehangu mynediad at addysg feddygol ar gyfer y rhai o gefndiroedd difreintiedig. Byddai cyllid a dargedir yn cefnogi hyn.
- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut gellir darparu cyllid mwy cyson i fyfyrwyr meddygol gydol eu cyrsiau. Mae myfyrwyr angen eglurder ynghylch y cymorth sydd ar gael ac mae angen iddynt fod yn hyderus y bydd ar gael gydol eu cyfnod astudio.
- Byddai cydraddoldeb cyllid rhwng sefydliadau AB sy'n darparu sefydliadau AU ac AB yn galluogi myfyrwyr i gael mynediad at y cyrsiau priodol yn agosach at eu cartref.
- Mae angen buddsoddiad ychwanegol mewn addysg gychwynnol i athrawon os yw Llywodraeth Cymru am gyrraedd ei tharged o 50 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- Dylid parhau i ariannu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Dylai fod yna le i arbedion maint wrth ei ariannu trwy'r Awdurdod Addysgu ac Addysg.
- Dylai fod disgwyl i sefydliadau AU ddiogelu a hyrwyddo astudiaethau Cymru.
- Anogir Llywodraeth Cymru i gyhoeddi datganiad clir ar ddyfodol tymor hir cymorth ariannol ar gyfer addysg nyrsio cyn gynted â phosibl er mwyn darparu sicrwydd i'r sector.
- Mae costau cynhaliaeth yn fwy o broblem i fyfyrwyr meddygol gan fod eu cyrsiau israddedig yn hwy a bod rhaid iddynt astudio am gyfran uwch o'r flwyddyn. Yn ogystal, mae dwyster yr astudio yn golygu bod ganddynt lai o gyfle i ymgymryd â chyflogaeth ran-amser i ategu eu hincwm. Felly, ni fydd y cynigion yn darparu'r hyn sy'n gyfwerth â Chyflog Byw Cenedlaethol ar gyfer myfyrwyr meddygol.

***Sylwadau eraill***

- Er y croesewir yr Awdurdod Addysgu ac Addysg arfaethedig mewn egwyddor, mae angen gwneud penderfyniadau anodd i sicrhau y gall myfyrwyr gael mynediad at y cyrsiau gorau yn agos at eu cartref.
- Mewn perthynas â'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a'r Lwfans i Fyfyrwyr Anabl, hyd yn oed os bydd y system yn parhau i fod ar wahân, efallai y bydd angen sicrhau cludadwyedd cynlluniau datblygu unigol a threfniadau rhannu gwybodaeth i sicrhau cysondeb darpariaeth ADY ar gyfer myfyrwyr anabl hyd at 25 oed.
- Mae'r fframwaith deddfwriaethol wedi gwanhau trosoledd CCAUC o ran hyrwyddo a chyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Felly, mae angen cyllid wedi'i neilltuo ar gyfer datblygiadau strategol ac i sbarduno newid ym meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru.
- Croesewir eglurhad cynnar ynglŷn â sut mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i CCAUC gyfrannu at y gwerthusiad parhaus o'r gwaith o weithredu argymhellion Diamond.
- Croesewir mwy o dryloywder mewn perthynas â'r costau blynyddol a'r costau a ragwelir i CCAUC o ganlyniad i gyllidebau AU, gan gynnwys cymorth i fyfyrwyr, y mae modd eu hadnabod yn rhwydd gyda chyllidebau Llywodraeth Cymru.
- Croesewir eglurder ynghylch y goblygiadau i CCAUC mewn perthynas â Phrentisiaethau Pellach.

- Dylai Llywodraeth Cymru barhau i roi'r newyddion diweddaraf i CCAUC am gynlluniau ar gyfer lefelau ffioedd uchaf er mwyn sefydlu costau a'r effaith ar incwm darparwyr.
- Bydd angen i CCAUC ystyried sut i reoli darpariaeth taliadau i adlewyrchu costau addysgu pynciau drytach.
- Croesewir derbyniad Llywodraeth Cymru o'r egwyddor y dylai cyllid ymchwil ansawdd (QR) gael ei gynnal. Fodd bynnag, mae angen cyllid digonol i gefnogi hyn.
- Mewn perthynas ar argymhellion Panel Diamond ar drosglwyddo gwybodaeth, mae cynaliadwyedd yn dibynnu ar sefydliadau AU yn derbyn cyllid digonol i gynnal gweithgareddau presennol.
- Croesewir y gydnabyddiaeth o'r system cymorth deuol ar gyfer ymchwil ond, ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gyllid yn cael ei ddarparu i CCAUC i gefnogi'r gweithgarwch hwnnw.
- Mae angen cyllid digonol i gefnogi ysgoloriaethau ymchwil ôl-raddedig (PGR). Dylid ystyried hefyd yr effaith ar nifer y myfyrwyr PGR ac, felly, dyraniadau cyllid hyfforddiant QR neu PGR.
- Ni fydd yr ysgoloriaethau ymchwil ôl-raddedig arfaethedig yn mynd i'r afael â'r prinder ymchwilwyr. Mae contractau cyfnod penodol yn golygu caledi ariannol ac ansicrwydd swydd i ymchwilwyr; mae angen mynd i'r afael â hyn er mwyn cynyddu nifer yr ymchwilwyr a gwella ansawdd yr ymchwil yng Nghymru.
- Bydd cymorth ar gyfer ymchwil yn helpu i fynd i'r afael â'r prinder ymchwilwyr yng Nghymru. Mae angen map ffyrdd gallu ymchwil hefyd.
- Fel rhan o'r pecyn cymorth hwn, dylai Llywodraeth Cymru geisio dileu ffioedd asiantaethau gosod.
- Y peth gorau fyddai i CCAUC ddarparu cyllid grant i WISERD er mwyn cynnal ei annibyniaeth.
- Mae'n siomedig na dderbyniodd Llywodraeth Cymru argymhelliad y Panel Adolygu ar gyllid ar gyfer Cymdeithas Ddysgedig Cymru.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

29. Lle mae sylwadau wedi'u gwneud am y system cymorth i fyfyrwyr yn benodol, bydd y rhain yn cael eu hystyried wrth i ni weithio gyda rhanddeiliaid i weithredu ein cynigion. Byddwn yn ystyried y materion eraill a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad fel rhan o'n proses llunio polisi ehangach.

## Atodiad A

### Rhestr o ymatebwyr

ATL Cymru
Blackburn, Lucy
Bush, David
Bwrdd Hyfforddi’r Diwydiant Adeiladu (CITB)
Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Colegau Cymru
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)
Cyngor Gofal Cymru
Cymdeithas Ddeintyddol Prydain
Cymdeithas Ddysgedig Cymru
Cymdeithas Feddygol Prydain (Cymru)
Cymdeithas Genedlaethol Cynghorwyr Ariannol Myfyrwyr (NASMA)
Cymdeithas Myfyrwyr y Brifysgol Agored
Davies, Tim
Dienw (dau ymateb)
Elias, Miss K
Estyn
Fellows, Rita
Fletcher, Charlotte
Grŵp Gweinyddwyr Cronfa Galedi Cymru
Grŵp Llandrillo Menai
Meehan, David
Plant yng Nghymru
Prifysgol Abertawe
Prifysgol Aberystwyth
Prifysgol Caerdydd
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Prifysgol De Cymru
Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Prifysgolion Cymru
Smith, Sophia
UK Council for Graduate Education
Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru
Undeb Prifysgolion a Cholegau
Williams, Catrin
Williams, Gareth
Williams, Kathryn
Wyn Owen, Ian
Y Brifysgol Agored
Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol
Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru
Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes, Prifysgol Aberystwyth